

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar ddatblygiadau economaidd diweddar a'r rhagolygon economaidd a chyllidol sy'n wynebu Cymru.
- Mae'r economi yng Nghymru wedi adfer yn eithaf cryf yn dilyn effeithiau cyfnodau cynnar y pandemig, ond mae ansicrwydd ynghylch cwrs y pandemig yn y dyfodol yn parhau i fod yn uchel, ac mae tarfu helaeth wedi bod ar gadwyni cyflenwi ac mae chwyddiant wedi cynyddu.
- Mae'r farchnad lafur yn benodol wedi perfformio'n well o lawer na'r disgwyl, ac mae'r cynnydd cyfyngedig mewn diweithdra yn arwydd o lwyddiant mawr o ran polisi.
- Fodd bynnag, mae diweithdra tymor hir wedi cynyddu, ac mae effeithiau niweidiol y pandemig yn debygol o arwain at incwm is dros gyfnod maith.
- Hefyd, mae'n ymddangos fel pe bai'r anfantais a wynebir gan lawer o grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys pobl gydag anabledd neu iechyd gwael wedi cynyddu.
- Un pryder penodol yw y bydd effeithiau'r tarfu ar addysg plant a phobl ifanc yn cael effaith barhaol ar y rhagolygon ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig.
- Mae chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'n debygol o effeithio ar grwpiau incwm isel yn enwedig. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Banc Lloegr yn disgwyl mai dros dro yw'r cynnydd mewn chwyddiant.
- Yn yr un modd â gweddill y DU, mae Cymru wedi gweld twf araf iawn mewn safonau byw ers adeg yr argyfwng ariannol yn 2008, a disgwylir i hyn barhau.
- Mae llawer o'r heriau a'r cyfleoedd economaidd hirdymor sy'n wynebu Cymru yn dal i fod yr un fath ag yr oeddent cyn yr epidemig, ond mae twf cyflym gweithio o bell yn her ac yn gyfle newydd.
- Mae incwm yr aelwyd ganolrifol (neu "nodweddiadol") yng Nghymru, sef y mesur unigol gorau o safonau byw, yn nes at ffigur y DU nag a sylweddolwyd yn gyffredinol, ac mae'r bwlch wedi cau ychydig dros amser.
- Mae pa mor gul yw'r bwlch mewn incwm canolrifol o'i gymharu â rhai dangosyddion eraill, fel cynnyrch domestig gros (GDP), yn adlewyrchu'n rhannol raddau'r trosglwyddiadau o dan system gyllidol y DU. Mae hefyd yn adlewyrchu'r niferoedd cymharol isel o bobl sy'n ennill cyflogau uchel ac incwm cymharol isel o fod yn berchen ar eiddo yng Nghymru.
- Nid yw lefelau tlodi yng Nghymru yn dangos llawer o duedd dros y blynyddoedd diwethaf, ac er bod y lefelau ychydig yn uwch nag ar gyfer y DU drwyddi draw, yn enwedig ymysg oedolion oed gweithio, maent yn is nag y maent mewn rhai rhanbarthau yn Lloegr.
- Mae dangosyddion safonau byw wedi'u cydgyfeirio dros amser ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae lefelau creu swyddi wedi'u dosbarthu'n anghyson.
- Mae Cymru'n wynebu heriau a chyfleoedd economaidd. Bydd manteisio ar y cyfleoedd i gryfhau perfformiad economaidd hefyd yn gwella'r sylfaen drethu ac o bosibl y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae'r prif heriau'n cynnwys mynd i'r afael â chynhyrchiant isel, cysylltiadau masnach newydd a newid hinsawdd.

- Ar ben hynny, mae Cymru'n wynebu her oherwydd y twf araf, a'r gostyngiad posibl, yn ei phoblogaeth – yn enwedig y boblogaeth 16-64 oed, sy'n fwyaf tebygol o fod yn ymwneud â gweithgarwch economaidd.
- O ganlyniad i'r gwariant ychwanegol yn ôl disgresiwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, mae'r cefndir ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru yn llai llwm na'r disgwyl yn gynharach yn y flwyddyn.
- O'i gymharu â chyllid craidd yn 2021-22, mae'r gyllideb adnoddau'n tyfu 3% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real dros y 3 blynedd mae'r gyllideb ddrafft yn eu cwmpasu. Mae'r twf hwnnw i gyd bron yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf.
- Fodd bynnag, ar draws y 3 blynedd y mae'r gyllideb ddrafft yn eu cwmpasu, mae'r cyllid yn dal yn is mewn termau real nag oedd yn 2021-22 os yw cyllid COVID-19 yn cael ei gynnwys yn y flwyddyn gyfredol.
- Bydd y rhagolygon tymor hirach ar gyfer cyllideb Cymru yn dibynnu ar berfformiad yr economi, ar sut mae amrywiaeth o risgiau eraill yn datblygu, ac ar ymatebion y llywodraeth iddynt, yng Nghymru ac ar lefel y DU.
- O ganlyniad i ddatganoli trethi, mae tua 80% o gyllid Llywodraeth Cymru yn deillio o'r grant bloc erbyn hyn.
- Mae cyllid o refeniw trethi yn ffynhonnell risg yn y gyllideb ac mae'n cysylltu cyllid â pherfformiad trethi datganoledig Cymru o'u cymharu â'r rhai cyfatebol yn y DU.
- Mae effaith net y trethi datganoledig ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol ac yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn cael ei yrru'n rhannol gan ddewisiadau polisi a rhewi'r lwfans personol treth incwm.
- Mae'r bwlch mawr rhwng cyfanswm refeniw a gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn golygu trosglwyddiad mawr i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU.
- Y trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwlch rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru ac mae'n risg allweddol i safonau byw yng Nghymru.

Cyflwyniad

Eto eleni, mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio mewn cyfnod o ansicrwydd parhaus oherwydd y pandemig Covid-19 sy'n esblygu ac ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron.

Cynhyrchodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ei rhagolygon diweddaraf ym mis Hydref a chyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Hadolygiad o Wariant ar yr un pryd. Er bod rhagolygon economaidd a chyllidol yn agored i newid, mae'r datblygiadau hyn yn darparu sail ar gyfer asesu rhagolygon Cymru dros y tymor agos.

Mae nifer o ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu orau dros y tymor canolig i'r hirdymor. Mae'r adroddiad hwn felly'n adolygu nifer o heriau a thueddiadau tymor hirach pwysig a oedd yn bodoli cyn argyfwng Covid-19 ac a fydd yn parhau ar ei ôl.

Datblygiadau economaidd diweddar

Mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU. O ganlyniad, mae datblygiadau ledled y DU drwyddi draw yn dylanwadu'n fawr ar berfformiad tymor byr economi Cymru (ac mae nifer o siartiau yn yr adroddiad hwn yn cadarnhau'r berthynas agos hon).

Mae Siart 1 yn cynnwys y data misol diweddaraf ar gyfer GDP y DU. Er gwaethaf ei gyfyngiadau amlwg, mae GDP yn ddangosydd rhesymol o amrywiadau economaidd tymor byr, yn enwedig pan fydd y newidiadau'n fawr.

Mae'r data diweddaraf am GDP yng Nghymru ar gyfer chwarter cyntaf 2021. Nid oes data mwy amserol ar gael ar gyfer GDP Cymru. Mae'n anodd dehongli'r data chwarterol ar gyfer Cymru gan eu bod yn gallu bod yn anwadal iawn ac mae angen eu diwygio'n sylweddol (er enghraifft, mae rhai chwarteri blaenorol wedi cael eu diwygio o ddangos twf cadarnhaol iawn i ddangos gostyngiad). Felly, hyd yn oed petai data mwy amserol am GDP Cymru ar gael, ni fyddai hyn yn werthfawr iawn pe bai'n cael ei gynhyrchu ar yr un sail.

Fodd bynnag, mae cynnyrch domestig gros (GDP), a'i elfen allweddol, gwerth ychwanegol gros (GVA)¹, yn dal yn ddangosydd pwysig o gryfder yr economi yng Nghymru a sylfaen drethu Cymru. Mae'r data blynyddol llai amserol ond mwy dibynadwy ar GVA yn cael ei hystyried ymhellach isod.


Daw'r data mwyaf amserol a pherthnasol sydd gennym ar gyfer Cymru o'r farchnad lafur, ac mae nifer y gweithwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Talu Wrth Ennill yn ddangosydd arbennig o addysgiadol oherwydd, yn wahanol i lawer o ddangosyddion eraill, nid yw'n seiliedig ar sampl o arolwg gyda chyfyngau hyder eang.

Dangosir niferoedd gweithwyr ar gyfer Cymru a'r DU yn Siart 1 hefyd²

¹ Mae GDP a GVA yn debyg yn gysyniadol ond maent yn amrywio o ran y ffordd y maent yn trin rhai trethi a chymorthdaliadau; mae GVA yn cael ei fesur cyn, a GDP yn cael ei fesur ar ôl, gwneud addasiadau ar gyfer y trethi a'r cymorthdaliadau hyn. Mae GDP a GVA yn cyflwyno darlun tebyg iawn o berfformiad economaidd Cymru.

² Gan fod y mesur hwn yn gyfrif yn hytrach nag arolwg sampl, nid yw'n destun gwall samplu o'r math sy'n effeithio ar yr Arolwg o'r Llafurlu ac sy'n gallu golygu ei bod hi'n anodd dehongli'r canlyniadau yn ystod cyfnodau o newid economaidd mawr.

Siart 1: Effeithiau Economaidd y Pandemig.



Ffynhonnell: SYG

Mae'r siart yn dangos bod y gostyngiad mewn cyflogaeth ar draws Cymru a'r DU yn gyffredinol yn llawer mwy cymedrol na'r gostyngiad mewn GDP³. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant y polisiâu a roddwyd ar waith i liniaru effeithiau economaidd y pandemig ar fusnesau a'r farchnad lafur.

Roedd y gostyngiad mewn GDP yn ystod y pandemig yn adlewyrchu effaith gyfunol y pandemig ei hun a'r mesurau a roddwyd ar waith i reoli lledaeniad y clefyd. Nid yw'n bosibl asesu'r cyfraniadau cymharol yn fanwl gywir ond mae ymchwil yn dangos, hyd yn oed yn absenoldeb mesurau rheoli, y byddai gostyngiad mawr mewn GDP wedi digwydd wrth i bobl newid eu hymddygiad. Mae hefyd yn debygol, pe na bai mesurau rheoli dros dro wedi cael eu rhoi ar waith yn gymharol gyflym, y byddai effeithiau economaidd negyddol tymor hir y pandemig wedi bod hyd yn oed yn fwy oherwydd y byddai cyfyngiadau hyd yn oed mwy difrifol ac estynedig wedi bod yn angenrheidiol yn y pen draw.

Mae Siart 1 hefyd yn dangos bod niferoedd gweithwyr yn tyfu ychydig yn arafach yng Nghymru nag ar draws y DU drwyddi draw cyn y pandemig, gan adlewyrchu twf gwahaniaethol yn y boblogaeth oed gweithio.

³ Dylid nodi nad yw'r siart yn cynnwys data ar hunangyflogaeth ac mae gwybodaeth arall yn awgrymu bod yr effaith negyddol yma ychydig yn fwy.

Yn ystod y pandemig, mae'r effaith ar niferoedd gweithwyr wedi bod ychydig yn llai niweidiol yng Nghymru na'r DU drwyddi draw, lle mae'r ffigurau'n adlewyrchu gostyngiadau arbennig o ddifrifol mewn cyflogaeth yn Llundain.

Er bod y data ar niferoedd gweithwyr a ddangosir yn y siart yn cynnwys gwybodaeth am raddfa a thrywydd cyffredinol yr effaith ar y farchnad lafur yng Nghymru, nid yw'n cynnwys yr effeithiau ar hunangyflogaeth, lle mae'r data'n gyfnewidiol ond lle mae'n ymddangos, yn 2020, fod gostyngiadau'n gyfatebol fwy na'r cwymp yn nifer y gweithwyr.

Drwy gydol y pandemig, mae'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU wedi aros yn isel yn ôl safonau hanesyddol. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd⁴, mae'r gwahaniaeth mawr mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU, a barhaodd yn ystod y 1980au a'r 1990au, wedi cael ei ddileu i raddau helaeth, ond nid yn llawn, dros y blynyddoedd ers datganoli.

Yn gyffredinol, felly, mae effaith y pandemig ar farchnad lafur Cymru wedi bod yn llawer llai na'r effaith ar GDP ac yn llawer llai difrifol na'r hyn a ddisgwyliid yn wreiddiol. Mae diweithdra torfol wedi'i osgoi, diolch i raddau helaeth i'r cynlluniau cymorth enfawr a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Hyd yma, mae'r argyfwng hwn wedi arwain at y lefel isaf o ddiweithdra ar ôl dirwasgiad ers 1975, pan ostyngodd GDP y DU 2% – o'i gymharu â gostyngiad o bron i 10% yn 2020 (sydd ill dau yn newidiadau blynyddol).

Serch hynny, yn 2020 y gwelwyd y crebachu mwyaf ym maint y farchnad lafur ers dechrau'r 1990au, gyda'r gostyngiadau mwyaf ar gyfer pobl iau a hŷn. Cafwyd effaith fwy niweidiol ar ddynion na merched.

Mae'n ymddangos mai lefelau is o gyflogaeth ymysg mewn-fudwyr oedd yn gyfrifol am tua chwarter y gostyngiad yng ngweithlu'r DU⁵ yn 2020. Eglurwyd y gweddill – tri chwarter – gan anweithgarwch uwch.

O ran y gostyngiad yn nifer y gweithwyr mewn-fudol, mae'n anodd iawn gwahanu effeithiau Covid a Brexit. Fodd bynnag, yr effaith gyffredinol sydd wedi deillio o hyn yw ychwanegu at anawsterau recriwtio mewn rhai sectorau.

Mae nifer fawr o bobl wedi cael eu cyflogi eto yn ystod 2021; sbardunwyd hyn yn rhannol gan newid strwythurol (er enghraifft, drwy ffafrio cyflogaeth yn y sector dosbarthu), ac yn rhannol yn sgil ailagor, gan arwain at y gymhareb isaf erioed rhwng diweithdra a swyddi gwag yn ystod yr hydref.

Mae'r dadansoddiad ar gyfer y DU drwyddi draw yn awgrymu bod y cynnydd mwyaf wedi bod mewn gwaith ar gyflogau isel, gyda gwelliant ychydig yn llai cryf ar gyfer y

⁴ [adroddiad-y-prif-economegydd-2020.pdf \(llyw.cymru\)](#)

⁵ Dim ond ar lefel y DU y mae data ar y mater hwn, ac ar sawl mater arall a drafodir yn ddilys, ar gael ar hyn o bryd.

rheini sydd â lefelau sgiliau uwch. Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried bod colledion anghymesur wedi digwydd mewn gwaith ar gyflogau isel yn ystod y pandemig. Mae cyflogaeth ymysg pobl ifanc hefyd wedi bod yn adfer yn gryf.

Er gwaethaf yr adferiad diweddar hwn yn y farchnad lafur, mae diweithdra tymor hir wedi cynyddu o'i gymharu â'r lefel cyn y pandemig. Mae'r "cosbau" cyflogaeth mawr a wynebwr gan lawer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a phobl anabl yn enwedig, wedi parhau, ac mewn rhai achosion mae'n ymddangos eu bod wedi cynyddu.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod adferiad cyflogaeth ar draws Cymru a'r DU wedi'i briodoli bron yn gyfan gwbl i ostyngiad mewn diweithdra, heb fawr ddim lleihad mewn anweithgarwch, neu ddim o gwbl. Yn wahanol i ddiweithdra, mae'r cynnydd mewn anweithgarwch wedi bod yn debyg i ddirwasgiadau blaenorol.

Mae'r lefel uchel barhaus o anweithgarwch ar draws y DU yn adlewyrchu niferoedd uwch o fyfyrwyr, nifer llai o fyfyrwyr yn gweithio neu'n chwilio am waith, ymddeoliad cynnar ac – efallai'r agwedd sy'n peri'r pryder mwyaf – cynnydd mewn salwch tymor hir. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r nodwedd olaf yn adlewyrchu effeithiau parhaol Covid, neu ffactorau eraill.

Ymysg gweithwyr iau, mae'n ymddangos bod anweithgarwch wedi gostwng ymysg menywod ond wedi codi ymysg dynion, gyda'r cydbwysedd efallai'n adlewyrchu'n rhannol effeithiau'r lefelau uwch o weithio gartref.

Bydd y cynnydd mewn anweithgarwch, os bydd yn parhau, yn gofyn am ymateb polisi ar y cyd.

Rhagolygon economaidd tymor byrrach

Allbwn y DU a'r farchnad lafur

Fel y nodwyd eisoes, mae Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU ac mae rhagolygon economaidd Cymru yn dibynnu'n drwm ar ddisgwyliadau ar gyfer y DU drwyddi draw.


Yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol⁶ diweddaraf, a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant a Chyllideb yr Hydref, nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) fod y momentwm y tu ôl i economi'r DU wedi lleihau dros yr haf. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod GDP y DU wedi cynyddu 1.3% yn y tri mis hyd at fis Medi o'i gymharu â 5.5% yn y tri mis hyd at fis Mehefin.

Roedd disgwyl i bwysau cyflenwi wedi'u dogfennu'n dda, taliadau credyd cynhwysol is, rhagor o gynnydd mewn heintiau Covid a lleihad naturiol yn yr ehangiad adlamu

⁶ [Economic and fiscal outlook - October 2021 - Office for Budget Responsibility \(obr.uk\)](https://obr.uk/economic-fiscal-outlook-october-2021/)

cryf a welwyd yn ystod llawer o'r flwyddyn, gyfuno i gyfyngu ar enillion allbwn ddiwedd yr hydref a'r gaeaf. Serch hynny, roedd disgwyl i lefel y GDP cyn y pandemig gael ei hadfer tua diwedd y flwyddyn. Gweler Siart 2.


Siart 2: Ffigurau alldro GDP gwirioneddol misol y DU a rhagolygon tymor agos



Roedd yr OBR yn disgwyl i ddiweithdra gynyddu dros yr hydref wrth i rai gweithwyr ar ffyrlo ddod yn ddi-waith (gweler Siart 3). Yn ogystal, nodwyd y byddai'n cymryd amser i rai gweithwyr a gollodd swyddi mewn sectorau a oedd yn ei chael yn anodd ddod o hyd i swydd "gyfatebol" yn y diwydiannau sy'n ffynnu yn yr economi ar ôl y cyfnod clo, gan ddod o ddiwydiannau lle mae'r amodau'n anoddach.

Gallai'r broblem gyfateb hon fod yn her benodol i weithwyr hŷn sydd wedi colli eu swyddi – ac mae'r data diweddaraf yn awgrymu bod cyfraddau anweithgarwch pobl hŷn o oedran gweithio yn cynyddu.

Siart 3: Cyfradd diweithdra'r DU a rhagolygon tymor agos



Mae'r cynnydd mewn diweithdra a ddisgwyllir gan yr OBR, sydd eisoes yn llawer llai na'r rhagolygon blaenorol, eto'n ymddangos yn amcangyfrif rhy uchel, ar sail y data diweddaraf ac ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron.

Fodd bynnag, mae datblygiadau diweddar wedi tanlinellu'r ansicrwydd parhaus am gwrs y pandemig, a goblygiadau amrywiolion newydd yn benodol.

Chwyddiant

Yn unol ag asesiad blaenorol swyddogion Banc Lloegr, roedd yr OBR yn disgwyl y byddai chwyddiant yn fwy na 4.0% ar gyfartaledd ar gyfer llawer o'r flwyddyn nesaf. Gan dybio y dylai prisiau ynni ac oedi o ran cyflenwi lacio yn y pen draw, roedd disgwyl i bwysau prisiau wasgaru tua diwedd y flwyddyn a thu hwnt. Roedd disgwyl i chwyddiant CPI fod tua 3.0% tuag at ddiwedd y flwyddyn nesaf, a nesáu at 2.0% erbyn diwedd y flwyddyn 2024.

Ers i'r OBR gynhyrchu ei hadroddiad, mae chwyddiant wedi cyflymu, yn enwedig o ganlyniad i gynydd ym mhrisiau nwy a'r tarfu ar gadwyni cyflenwi sydd hefyd wedi effeithio ar berfformiad busnesau. Mae nifer o'r ffactorau'n ymddangos yn fyd-eang eu natur, a gallant fod yn ganlyniad dros dro i'r cyfuniad o adferiad ac effeithiau parhaus y pandemig. Os felly, byddai ymateb polisi ariannol yn ymddangos yn amhriodol. Fodd bynnag, oherwydd bod risg bosibl y gallai chwyddiant ymwreiddio, efallai y bydd Banc Lloegr yn teimlo bod angen cynyddu cyfraddau llog er mwyn osgoi'r posibilrwydd hwn.

Effeithiau sy'n "creithio"


Mae dirwasgiadau'n ddieithriad yn gadael creithiau economaidd a chreithiau eraill ar gymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys gwaddol buddsoddiad is, mewn cyfalaf ffisegol a chyfalaf dynol (yr ail o'r rhain yn adlewyrchu'n rhannol effeithiau diweithdra, a all arwain at ddirywiad mewn sgiliau, yn ogystal â gostyngiad mewn hyfforddiant).

Roedd yr OBR wedi credu y byddai lefel y GDP yn gostwng 3.0% yn barhaol oherwydd y pandemig. Yn bennaf oherwydd llwyddiant polisiâu a roddwyd ar waith gan lywodraethau datganoledig a'r DU, amcangyfrifir mai 2.0% yw'r graith erbyn hyn. Mae hyn yn dal yn sylweddol – mae'n werth tua £500 y pen ar gyfartaledd yng Nghymru bob blwyddyn wrth symud ymlaen.

Mae'r effeithiau'n debygol o gael eu teimlo'n anghymesur gan grwpiau difreintiedig, gan fod effeithiau niweidiol yn y farchnad lafur ar y cyfan yn fwy difrifol i'r rheini a oedd eisoes dan anfantais, ond maent yn dal yn is o lawer na'r difrod a achoswyd gan ddirwasgiadau blaenorol.

Mae Siart 4 yn dangos dadansoddiad yr OBR o'r graith economaidd yn ystod y pandemig, ochr yn ochr â'r amcangyfrifon a ddarparwyd gan ragfynegwyr eraill.

Siart 4: Tybiaethau ynghylch creithiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig



Hefyd, cawsom ein hatgoffa gan yr OBR o gostau trosglwyddo'r DU i berthynas fasnachu newydd, lai clos gyda'r UE. Yn ôl yr OBR, disgwylir y bydd llai o fasnachu oherwydd Brexit yn lleihau cynhyrchiant, a thrwy hynny'n lleihau incwm a safonau byw, bedwar y cant y flwyddyn dros y tymor canolig. Mae'r gost hon ddwywaith cymaint â'r risg economaidd o ddau y cant o'r GDP a nodir uchod y mae'r OBR yn ei gysylltu â'r pandemig (ond mae'n dal yn is na'r effeithiau a ddisgwylir gan nifer o ymchwilwyr annibynnol).

Goblygiadau i Gymru

Yn gyffredinol, mae asesiad yr OBR o ragolygon tymor agos ar gyfer y DU hefyd yn berthnasol i Gymru.

Er bod marchnad lafur Cymru, fel marchnad y DU, wedi perfformio'n well o lawer yn ystod y pandemig nag a ragwelwyd, mae diweithdra tymor hir wedi cynyddu, a gallai gynyddu ymhellach wrth i'r economi ailstrwythuro yn ystod y broses adfer. Mae risg o hyd y gallai cwmnïau anhyfyw a gefnogwyd yn ystod y pandemig gwmpo dros y misoedd nesaf.

Ar ben hynny, mae risgiau'n deillio o'r wasgfa ddisgwyliedig ar safonau byw dros y blynyddoedd nesaf. Priodolir y wasgfa hon i chwyddiant uwch (yn enwedig prisiau ynni), trethi uwch a thoriadau mewn budd-daliadau (i'r rheini nad ydynt yn gallu gweithio).

Mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi dangos, hyd yn oed cyn caniatáu ar gyfer rhagor o gynnydd mewn chwyddiant, y byddai disgwyl i newidiadau i dreth a budd-daliadau arwain at incwm canolrifol yn gostwng dros y flwyddyn nesaf. Byddai pobl sy'n gweithio, yn ennill yr isafswm cyflog, ac yn cael Credyd Cynhwysol, yn elwa. Ond nid yw llawer o bobl sy'n ennill yr isafswm cyflog yn byw mewn cartrefi tlawd. Byddai aelwydydd di-waith, sydd fwyaf tebygol o fod yn dlawd, ar eu colled.

Bydd cynnydd mewn prisiau ynni hefyd yn cael effaith anghymesur ar aelwydydd tlotalach.

Gallai pwysau ar incwm arwain at lai o wariant, gydag effeithiau niweidiol ar gyflymder yr adferiad ac ar gyflogaeth leol mewn ardaloedd sydd wedi'u taro'n wael. Mae'n bosibl iawn y bydd effeithiau canlyniadol ar y galw am wasanaethau cyhoeddus.

O ystyried lefelau incwm is yng Nghymru, ac amllder tlodi sy'n uwch nag mewn rhai rhannau eraill o'r DU, gallai'r holl ganlyniadau niweidiol hyn effeithio ar Gymru'n enwedig.

Daw'r wasgfa hon ar safonau byw ar ben cyfnod maith, sy'n dyddio'n ôl i adeg yr argyfwng ariannol yn 2008, pan oedd y twf mewn safonau byw yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, yn eithriadol o araf. Twf gwan iawn mewn cynhyrchiant fu'r ffactor allweddol wrth egluro hyn, ac fe'i trafodir ymhellach isod.

Ar ben hynny, mae effeithiau niweidiol Brexit a nodwyd gan yr OBR yn debygol o gael eu teimlo yng Nghymru yn enwedig, gyda'i dibyniaeth uwch na'r cyfartaledd ar weithgynhyrchu a'i chysylltiad â marchnadoedd yr UE.

Yn gyffredinol, mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid⁷ eto'n dangos, heb fawr o syndod, mai'r ardaloedd mwyaf dibynnol ar weithgynhyrchu sy'n wynebu'r risg fwyaf yn Nghymru. Ar ben hynny, ac yn dibynnu'n benodol ar effaith cytundebau masnach newydd a negodir gan Lywodraeth y DU, mae risgiau posibl amlwg i'r sector amaethyddol, ac yn enwedig i ffermio da byw.

Mae pryderon penodol ynghylch y canlyniadau o ran profiadau pobl ifanc o'r farchnad lafur yn y dyfodol yn sgil tarfu ar addysg yn ystod y pandemig. Oherwydd eu natur, gall y creithiau posibl hyn gymryd amser hir i ymddangos mewn cyflogaeth ac incwm is. Fodd bynnag, oni bai fod gwaith adfer cadarn ac effeithiol yn cael ei wneud, mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at ehangu anghydraddoldebau ymhellach yn y tymor hir.

Bydd datblygu a gweithredu ymateb polisi effeithiol i'r her hon ar sail barhaus yn pennu i ba raddau y mae'r canlyniadau niweidiol hyn yn dod i'r amlwg.

Canlyniadau'r cynnydd mewn gweithgarwch economaidd "o bell" i Gymru

Mae'r pandemig wedi cyflymu'r duedd tuag at weithgarwch economaidd "o bell", yn enwedig gweithio o bell, gyda llawer o gyflogwyr yn dweud eu bod yn bwriadu symud yn barhaol i fodel gweithio hybrid. Nid yw graddfa'r newid yn glir ar hyn o bryd, ond gallai'r effeithiau fod yn sylweddol.

Mae dadansoddiad diweddar yn dangos, ar hyn o bryd, y gellid cyflawni tua un rhan o bump o swyddi yn gyfan gwbl o bell. Mae'r "swyddi unrhyw le" hyn yn aml yn

⁷ [Brexite and labour market inequalities: potential spatial and occupational impacts - Institute For Fiscal Studies - IFS](#)

swyddi cymharol fedrus sy'n talu'n dda, yn bennaf yn y sector gwasanaethau busnes⁸.

Gallai cynnydd mewn gweithio o bell hefyd beri risg o arwain at fwy o anghydraddoldebau – ar un llaw, drwy golli cyflogaeth i bobl ar gyflogau is mewn gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio'n lleol ac, ar y llaw arall, drwy wella llesiant pobl sy'n gweithio o bell, sydd fel arfer mewn swyddi sy'n talu'n well.

Efallai y bydd gweithwyr o bell hefyd yn gweld cynnydd yn eu hincwm, os bydd gweithio o bell yn gwella eu cynhyrchiant, ac felly eu cyflog.

Ar yr un pryd, gall cynnydd mewn gweithio o bell arwain at gyfleoedd i bobl sydd â sgiliau gwerthfawr ond nad oeddent mewn cyflogaeth cyn y pandemig, efallai am resymau yn ymwneud ag anabledd neu leoliad daearyddol anghysbell.

Yn ddiweddar mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi ystyried goblygiadau'r duedd i weithio o bell ar ddosbarthiad gofodol gweithgarwch economaidd⁹. Daeth yr OECD i'r casgliad bod y posibilrwydd gweithio o bell yn creu cyfleoedd newydd i lefydd y tu allan i ddinasoedd mawr gyrraedd marchnadoedd newydd a denu trigolion a chwmnïau newydd.

Nid yw'r OECD yn disgwyl y bydd tuedd gyffredinol i bobl symud o'r dinasoedd mwyaf yn eu lluoedd, oherwydd bydd canolfannau mwy deinamig a deniadol yn gallu ailddyfeisio eu hunain, er enghraifft, drwy symud oddi wrth adwerthu a thuag at weithgareddau hamdden. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd risgiau penodol i ardaloedd trefol sydd â lefelau is o amwynder, ac mae nifer o enghreifftiau o hynny yng Nghymru wrth gwrs.

Gallai patrymau anheddu amrywiol ddod i'r fei yn y cyfnod ar ôl y pandemig oherwydd bod mwy o bobl yn dewis gweithio o bell. Mae'r newidiadau posibl a nodir gan yr OECD, a allai ddigwydd ar y cyd, yn cynnwys:

- newidiadau strwythurol sy'n deillio o symud gweithwyr medrus iawn yn barhaol y tu allan i ganol dinasoedd, gan gynnwys colli gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio'n lleol, fel y nodwyd yn flaenorol;
- ehangu'r parthau cymudo o gwmpas dinasoedd gan arwain at effaith "toesen", neu waethygu effaith o'r fath;
- dinasoedd llai sydd â lefel uchel o amwynder yn dod yn fwyfwy deniadol.

Mae'r ymatebion polisi a awgrymwyd gan yr OECD yn cynnwys:

⁸ Gweler: [Anywhere jobs and the future of work | VOX, CEPR Policy Portal \(voxeu.org\)](#)

⁹ Gweler: [Executive Summary | Implications of Remote Working Adoption on Place Based Policies : A Focus on G7 Countries | OECD iLibrary \(oecd-ilibrary.org\)](#)

- buddsoddi mewn cysylltedd TGCh a sgiliau cysylltiedig er mwyn lleihau'r rhaniad digidol a hwyluso'r broses o fabwysiadu gweithio o bell ar draws rhanbarthau, gweithwyr a chwmnïau;
- gwella pa mor atyniadol a hygyrch yw llefydd dan fygythiad, gan gynnwys darparu llefydd ar gyfer rhannu mannau gwaith, gofal plant o ansawdd uchel, rhwydweithiau trafndiaeth effeithiol a thai fforddiadwy;
- sicrhau bod canlyniadau gweithio o bell mor amgylcheddol gynaliadwy ac effeithlon â phosibl drwy bolisiau defnydd tir priodol ac addasu seilwaith trafndiaeth.

Mae dadansoddiad yr OECD yn awgrymu cyfleoedd posibl i Gymru, yn ogystal â risgiau. Yn benodol, gallai lefel uchel yr amwynder mewn sawl rhan o Gymru ei wneud yn lle sy'n fwyfwy dymunol i bobl fyw a gweithio.

Mae union oblygiadau gweithgarwch mwy anghysbell o ran defnyddio trafndiaeth a'r galw am dai yn aneglur. Er enghraifft, efallai y bydd ar bobl eisïau byw mewn tai mwy mewn lleoliadau llai "canolog", sy'n golygu y bydd angen teithio'n bellach, hyd yn oed os bydd llai o siwrneïau. Yn gyffredinol, gallai'r defnydd o ynni gynyddu yn hytrach na gostwng oherwydd bod y defnydd o drafndiaeth yn newid a mwy o ynni'n cael ei ddefnyddio i wresogi cartrefi, na fyddai'n ddigon i wrthbwysu unrhyw ostyngiad yn y defnydd o ynni yn y gweithle.

Ar hyn o bryd, mae traffig ar y ffyrdd bron â chyrraedd ei lefelau cyn y pandemig, ac mae teithio ar drenau a bysiau'n dal yn is o lawer na'r lefelau hynny.

Patrymau safonau byw yng Nghymru

Mae'r adran hon yn adolygu tueddiadau mewn safonau byw yng Nghymru, gan gymharu Cymru â gweddill y DU ac ystyried amrywiadau yng Nghymru.

Gan fod yr adroddiad hwn yn ystyried datblygiadau a rhagolygon yr economi yn bennaf, mae'r ffocws ar safonau byw materol. Ond, fel y mae'r pandemig wedi'i amlygu, mae agweddau eraill ar lesiant yn hollbwysig ac mae rhai dangosyddion llesiant meddyliol, er enghraifft, wedi dangos dirywiad sylweddol ar wahanol gamau o'r pandemig.

Mae Adroddiad Llesiant Cymru¹⁰ blynyddol Llywodraeth Cymru yn adolygu tueddiadau diweddar wrth iddynt effeithio'n fwy cyfannol ar lesiant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol¹¹ newydd yn darparu asesiad wedi'i ddiweddarau o oblygiadau'r tueddiadau hirdymor sy'n wynebu Cymru ar gyfer y nodau a nodir yn y Ddeddf.

Dylid nodi, fel y dangosodd adroddiad y llynedd, fel arfer mae llawer mwy o amrywiaeth mewn safonau byw o fewn ardaloedd na rhyngddynt, gyda nodweddion

¹⁰ [Llesiant Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU](#)

¹¹ [Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun cyfunol ar gyfer 2021 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

unigolion ac aelwydydd yn dylanwadu'n bennaf ar incwm, yn enwedig lefelau cymwysterau a statws iechyd.

Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol system dreth a budd-daliadau ehangach y DU o ran lliniaru amrywiadau mewn safonau byw, ac felly at ganlyniadau pwysig dewisiadau polisi a wneir gan lywodraeth y DU yn y meysydd hyn.

Mae gwybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru ar gael o ddwy ffynhonnell. Un yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n darparu canlyniadau allweddol ar gyfer incwm cyfartalog aelwydydd ac ar gyfer lefelau tlodi.

Yn y gorffennol, mae maint sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru wedi bod yn fach, sy'n golygu bod angen canfod cyfartaledd data dros nifer o flynyddoedd (gan gynhyrchu canlyniadau nad ydynt yn amserol) a bod hyn yn aml yn rhwystro dadansoddiad manwl. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu hwb i'r Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i ddadansoddi newidiadau mewn safonau byw yng Nghymru, ac yn benodol i asesu sut mae newidiadau o'r fath yn effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth, gan gynnwys y rheini sydd â lefelau isel o incwm.


Y ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm yw'r Cyfrifon Rhanbarthol, sydd hefyd yn darparu canlyniadau ar gyfer incwm cyfartalog aelwydydd, ond mae'r canlyniadau wedi'u seilio'n rhannol ar ddosraniad data lefel uchel yn y cyfrifon cenedlaethol i ardaloedd lleol. Mae data'r Cyfrifon Rhanbarthol hefyd yn cynnwys rhywfaint o incwm sy'n "amhenodol" yn hytrach na gwirioneddol, yn bwysicaf oll, gwerth y gwasanaethau tai y tybir eu bod yn cael eu derbyn gan berchnogion preswyl.

Tuedd yn yr incwm canolrifol

Yr incwm canolrifol ar gyfer aelwydydd yw mesur incwm yr aelwyd sydd yng nghanol y dosbarthiad incwm, pan fo aelwydydd yn cael eu trefnu yn ôl incwm. Gellir ei ystyried felly fel rhywbeth sy'n adlewyrchu incwm aelwyd "nodweddiadol", ac fe gaiff ei ystyried yn eang fel y mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol.

Mae Siart 5 yn dangos incwm canolrifol aelwydydd ar gyfer Cymru a'r DU yn y tymor hwy, ar ôl addasu ar gyfer gwahaniaethau mewn costau tai.

Siart 5: Incwm canolrifol aelwyd (£ yr wythnos, prisiau 2019/20)



Ffynhonnell:

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nodiadau

*GB ar gyfer y blynyddoedd cyn 2002/03

Cyfrifir cyfwerthedd data i sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu cyfansoddiad aelwydydd tebyg ac yn cael eu dangos ar ôl costau tai.

Mae'r data yn y siart yn dangos bod incwm canolrifol Cymru a'r DU wedi tyfu tua 1.8% y flwyddyn dros y cyfnod cyfan, ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant.

Mae'r twf wedi bod yn arafach o lawer dros y cyfnod ers tua adeg yr argyfwng ariannol yn 2008, er ei fod wedi gwella'n rhannol yn ystod y blynyddoedd diweddaraf sydd ar gael (cyn y pandemig). Mae'r cyfnod hwn o dwf araf mewn incwm a safonau byw yn gyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen yn y cyfnod modern, ac i raddau helaeth mae'n adlewyrchu twf araf mewn cynhyrchiant, sef y prif reswm dros safonau byw yn y pen draw¹².


Gwelir, er gwaethaf amrywiadau blynyddol, fod cydberthynas agos rhwng y tueddiadau ar gyfer Cymru a'r DU, fel y disgwyliid o ystyried eu cyd-destun economaidd ac ariannol sy'n gyffredin i raddau helaeth.

Mae Siart 6 yn dangos incwm canolrifol aelwyd yng Nghymru, ond wedi'i fynegi mewn cymhariaeth â'r ffigur ar gyfer y DU drwyddi draw y tro hwn. Mae'r siart yn dangos, er bod y ffigur ar gyfer Cymru yn eithaf agos at y ffigur ar gyfer y DU

¹² Mae gwendid sylfaenol twf cynhyrchiant dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei guddio braidd yn y siart gan fod y twf mewn incwm wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan adferiad mewn cyfraddau cyflogaeth, rhywbeth sy'n amlwg â photensial cyfyngedig yn unig.

drwyddi draw yn y tymor canolig, bod cryn amrywiaeth yn flynyddol. Gall hyn adlewyrchu ffactorau ystadegol, yn hytrach na newid go iawn.

Siart 6: Incwm canolrifol aelwyd: Cymru o'i gymharu â'r DU.



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Siart 6 hefyd yn dangos bod rhywfaint o gydgyfeirio cymedrol wedi bod ers canol y 1990au, gydag incwm canolrifol aelwydydd Cymru ddim ond 4.9% yn is na'r ffigur ar gyfer y DU drwyddi draw yn y cyfnod diweddaraf, a'r ffigur ar gyfer Cymru yn uwch nag mewn nifer o ranbarthau Lloegr¹³.

Fel y trafodwyd yn adroddiad y llynedd, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn llawer mwy cymedrol pan wneir y gymhariaeth ar sail mesurau incwm canolrifol yn hytrach na GDP (neu ei brif gydran, GVA) ac mae hynny'n adlewyrchu, i raddau helaeth, y trosglwyddiadau mawr iawn a wneir drwy system gyllidol y DU¹⁴. Mae'r gwahaniaeth hefyd yn adlewyrchu'r ffaith fod y bwlch mewn incwm canolrifol yn llai na'r bwlch mewn incwm cymedrig, a thrafodir y pwynt hwn ymhellach isod.

Fodd bynnag, mae GDP a GVA yn dal yn bwysig fel dangosyddion allweddol o gryfder gwaelodol yr economi yng Nghymru ac felly'r sylfaen drethu.

Mae'r data GVA diweddaraf ar gyfer 2019. Yn y flwyddyn honno, GVA y pen yng Nghymru oedd yr ail isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Nid yw perfformiad Cymru o ran GVA y pen o'i gymharu â'r DU yn dangos llawer o duedd yn y

¹³ Er bod y ffigur hwn yn addasu ar gyfer gwahaniaethau mewn costau tai, nid yw'n ystyried gwahaniaethau eraill mewn costau byw. Mae dadansoddiad blaenorol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu petai gwahaniaethau o'r fath yn cael eu hystyried, y gallai leihau'r bwlch hyd at 2 bwynt canran.

¹⁴ Mae allgymudo net (sy'n cyfrannu at incwm Cymru ond nid at GVA na GDP Cymru, yn gwneud cyfraniad pellach, ond llai, i'r bwlch

blynyddoedd diwethaf, er ei fod yn dal ychydig yn is nag yr oedd yn y cyfnod hyd at argyfwng ariannol 2008.


Dros y blynyddoedd diwethaf, mae GVA y pen yng Nghymru wedi codi'n uwch na'r ffigur yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, sydd wedi gwrthdroi'r sefyllfa flaenorol, oherwydd Cymru oedd â'r GVA isaf y pen o holl wledydd a rhanbarthau'r DU am flynyddoedd lawer.

Tuedd mewn Incwm Gros cymedrig Aelwydydd Domestig

Mae'r ffynhonnell amgen o wybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru, y Cyfrifon Rhanbarthol, yn creu darlun mymryn yn wahanol o berfformiad cymharol Cymru. Y mesur incwm sydd ar gael o'r Cyfrifon Cenedlaethol yw Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI), sef (oddeutu) yr incwm sydd gan aelwydydd yn weddill ar ôl didynnu treth a derbyn budd-daliadau. Mae'n fesur o incwm cymedrig, yn hytrach na chanolrifol.

Mae Siart 7 yn dangos GDHI y pen yng Nghymru, o'i gymharu â'r DU drwyddi draw a'r DU ac eithrio Llundain dros gyfnod gweddol debyg i Siart 6.

Siart 7: Incwm Gwario Gros yr Aelwydydd: Cymru a'r DU



Ffynhonnell: SYG a Llywodraeth Cymru

Mae'r data yn Siart 7 yn dangos, yn wahanol i fesur incwm canolrifol aelwydydd, fod y bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran GDHI wedi ehangu, yn enwedig dros y cyfnod ers argyfwng ariannol 2008¹⁵. Mae'r siart hefyd yn dangos bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU (ac eithrio Llundain) wedi ehangu, ond i raddau llai, felly dim ond rhan o'r

¹⁵ Mae mesur o incwm cymedrig hefyd ar gael gan yr Arolwg o Adnoddau Teulu, ochr yn ochr â'r mesur o incwm canolrifol. Mae'r bwlch gyda'r DU a ddangosir ar y mesur hwn yn eithaf cyfnewidiol, ond heb fawr o arwydd o unrhyw duedd bod y bwlch yn cau.

esboniad am yr ehangu cyffredinol y gall twf cymharol cryfach mewn incwm yn Llundain fod.

Mae archwilio'r data sylfaenol yn dangos ei bod yn ymddangos bod dau ffactor wedi bod yn bwysig o ran egluro'r gwahaniaeth rhwng incwm canolrifol aelwydydd Cymru a'r GHDI.


Y cyntaf yw twf ychydig yn arafach mewn lefelau cyflog uwch yng Nghymru.

Wrth gymharu cyfanswm cyflog blynyddol yng Nghymru a'r DU, dros y cyfnod ers 1999 nid oes llawer o duedd yn y bwlch mewn cyflog canolrifol, gyda chyflog Cymru yn 90.5% o gyflog y DU yn 1999 ac yn 90.7% yn 2021. Fodd bynnag, mae cyflogau cymedrig yng Nghymru wedi gostwng, o 86.5% o'r DU yn 1999 i 83.8% yn 2021.

Mae Siart 8 yn cymharu cyfanswm y cyflog yng Nghymru a'r DU ar wahanol adegau yn y dosbarthiad cyflogau¹⁶.

Mae'n ymddangos bod y rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng tueddiadau cymedrig a chanolrifol yn adlewyrchu'r ffaith fod y rhai sy'n cael cyflogau uchel, ar draws y DU yn gyffredinol, wedi gweld mwy o gynnydd mewn cyflog nag a welwyd yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r bwlch rhwng cyflogau yng Nghymru a'r DU i'r rheini sy'n cael cyflogau uchel wedi cynyddu.

Siart 8: Cyflog yng Nghymru fel canran o'r DU, fesul degradd



Ffynhonnell: SYG - ASHE

Gellir gweld hefyd o Siart 8, er bod y bwlch mewn cyflogau rhwng Cymru a gweddill y DU wedi bod yn lledu tuag at frig y dosbarthiad, ei fod wedi bod yn culhau tuag at y gwaelod, mae'n debyg bod yr ail o'r effeithiau hyn yn adlewyrchu canlyniadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn rhannol.

¹⁶ Er nad yw hyn yn cael ei ddangos yma, mae'r data hefyd yn dangos bod dosbarthiad cyflogau yng Nghymru yn llai anghyfartal nag ydyw ar gyfer y DU drwyddi draw, gan adlewyrchu'r gyfran lai o bobl sy'n ennill cyflogau uchel yng Nghymru.

Nid yw'r cynnydd cymharol tuag at waelod y dosbarthiad wedi bod yn ddigon i wrthbwysu'r gostyngiad cymharol tuag at y brig, gan arwain at y tueddiadau gwahanol ar gyfer cyflogau canolrifol a chymedrig.

Yr ail ffactor sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng incwm canolrifol a GDHI yw'r tueddiadau gwahanol mewn gwerth eiddo rhwng Cymru a'r DU. Mae GDHI yn cynnwys elfen enwol fawr gymharol sydd â'r bwriad o adlewyrchu'r budd y mae perchen-feddianwyr yn ei gael o fyw yn yr annedd y maent yn berchen arni¹⁷.

Mae archwiliad manwl o ddata'r cyfrifon rhanbarthol yn dangos, yn ôl pob golwg, bod y twf cymharol arafach mewn incwm tybiannol perchnogion preswyl a'r incwm rhent o osod anheddau dros y deng mlynedd diwethaf wedi sbarduno cyfran fawr o'r gostyngiad cymharol yn GDHI Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r twf arafach mewn cyflogau uchel yng Nghymru a'r twf arafach mewn incwm o dai yn gwanhau sefyllfa ariannol gyffredinol Cymru, er bod yr effeithiau uniongyrchol ar y dinesydd "nodweddiadol" yn ymddangos yn gymharol ddiniwed, fel y datgelwyd gan y duedd mewn incwm canolrifol.


Mae'r dadansoddiad uchod yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2019/20 yn unig, ac mae rhai datblygiadau diweddar a allai naill ai atgyfnerthu neu newid y tueddiadau hyd yma:

- Gallai'r anghydraddoldebau mwy sydd wedi deillio o'r pandemig a'r newidiadau technolegol y mae wedi'u cyflymu gynyddu cyfoeth y rheini sy'n ennill cyflog yn y pen uchaf, sydd wedi'u tangynrychioli yng Nghymru.
- Gallai tuedd prisiau tai yng Nghymru godi o'i chymharu â mannau eraill oherwydd gweithgarwch economaidd / gweithio o bell. Gallai hyn gyfrannu at gynydd mewn incwm rhenti ac eiddo yn y dyfodol.

Mae'r data diweddaraf ar brisiau tai, a ddangosir yn Siart 9, yn rhoi rhyw arwydd o gynydd yn y galw yng Nghymru a allai fod wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a welwyd ledled y DU yn gyffredinol (ac yn enwedig yn Llundain).

¹⁷ Yr elfen hon yw'r brif elfen mewn "gwarged gweithredol" ar gyfer y sector cartrefi. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar werthoedd rhent anheddau yn hytrach na phrisiau gwerthu, sy'n gyfnewidiol ac yn adlewyrchu trafodion diweddar yn unig.

Siart 9: Newidiadau diweddar mewn prisiau tai



Ffynhonnell: SYG

Dosbarthiad incwm: tlodi


Mae data o'r Arolwg o Incwm Personol yn dangos bod incwm yng Nghymru wedi'i ddosbarthu'n llai anghyfartal nag y mae ar draws y DU drwyddi draw, yn bennaf oherwydd bod gan Gymru gyfran lai o bobl â lefelau uchel o incwm.

Fodd bynnag, yr Arolwg o Adnoddau Teulu yw'r brif ffynhonnell swyddogol o wybodaeth am incwm cymharol a tlodi i aelwydydd Cymru.

Mae Siart 10 yn dangos tueddiadau mewn tlodi cymharol¹⁸ (ar ôl caniatáu ar gyfer costau tai) yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol.

¹⁸ Mae tlodi cymharol yn cael ei ddiffinio fel incwm o dan 60% o'r incwm sy'n cael ei dderbyn gan aelwyd ganolrifol y DU. Felly byddai tlodi'n cynyddu pe bai incwm aelwydydd yn rhan isaf y dosbarthiad yn cynyddu ond roedd y cynnydd yn llai na'r hyn a dderbynnir gan yr aelwyd ganolrifol. Gallai tlodi ostwng hyd yn oed pe bai incwm yn gostwng yn rhan isaf y dosbarthiad, ar yr amod bod y gostyngiad hwn yn llai na'r hyn a dderbynnir gan yr aelwyd ganolrifol.

Siart 10: Tlodi cymharol Cymru a'r DU, ar ôl costau tai (% o'r boblogaeth)



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nid yw'r siart yn dangos newidiadau cyson mewn tueddiadau o ran cyfraddau tlodi yng Nghymru dros y degawd diwethaf (er bod rhai arwyddion o gynnydd diweddar mewn tlodi plant), yn dilyn degawd lle bu gostyngiad mewn tlodi.

Mae'r data diweddaraf yn dangos cyfraddau tlodi sydd ar hyn o bryd yn uwch ar gyfer plant, ac yn is ar gyfer pensiynwyr, o'i gymharu ag oedolion oed gweithio. Mae hefyd yn dangos bod cyfraddau tlodi yng Nghymru yn eithaf agos at gyfartaledd y DU ar y cyfan.

Mae'r cyfraddau tlodi uchaf yn y DU yn Llundain yn gyffredinol, ac mae gan nifer o ranbarthau eraill y DU gyfraddau uwch na Chymru.

Dosbarthiad incwm a safonau byw: amrywiad gofodol


Mae GDHI y pen, yn wahanol i incwm canolrifol aelwyd, hefyd ar gael ar lefel awdurdodau lleol. Ar y sail hon, yn y flwyddyn ddiweddaraf, 2019, Sir Fynwy oedd â'r lefel uchaf o incwm yng Nghymru, yn agos at gyfartaledd y DU. Ym Mlaenau Gwent yr oedd y lefel isaf o incwm. Yn yr un flwyddyn, ac efallai'n groes i ddisgwyliadau, dim ond ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru oedd incwm yng Nghaerdydd, tra oedd incwm Powys yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru, er bod ganddi'r GDP isaf y pen yng Nghymru.

Mae hyn yn dangos, ar lefel leol, fod yr allbwn economaidd a gynhyrchir mewn ardal – GDP – yn ddangosydd gwael o safonau byw y boblogaeth breswyl.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, mae mesurau safonau byw ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn cydgyfeirio yn hytrach na dargyfeirio os rhywbeth.

Gwelir yn Siart 11 ddangosydd o ddargyfeiriad (y “cyfernod amrywiad”) ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer pedwar mesur sy'n berthnasol i asesu safonau byw. Mae nifer is yn dangos llai o ddargyfeiriad.

Siart 11: Amrywiad mewn incwm a dangosyddion eraill ar draws ardaloedd awdurdodau lleol



Ffynhonnell: SYG, Llywodraeth Cymru

Er bod GDHI yn fesur sefydledig o incwm aelwydydd, fel y nodwyd eisoes, nid yw'r mesur gwell, sef incwm canolrifol, ar gael ar lefel leol. Fodd bynnag, mae data ar gyfer cyflog canolrifol ar gael ac mae wedi'i gynnwys yn y siart. Mae'r gyfradd gyflogaeth wedi'i chynnwys hefyd gan fod statws cyflogaeth yn ddylanwad allweddol ar les.


Mae Siart 11 yn dangos, er mwyn mesur incwm aelwydydd (GDHI), bod rhywfaint o gydgyfeirio wedi digwydd dros ran gynharach y cyfnod, gyda sefydlogrwydd cymharol ers hynny. Mae cyfraddau cyflogaeth wedi cydgyfeirio'n fras dros y cyfnod cyfan, gyda chyflog canolrifol hefyd yn cydgyfeirio dros y blynyddoedd diwethaf.

Yr eithriad yw cynhyrchiant llafur (GDP fesul awr a weithir), lle mae ardaloedd awdurdodau lleol wedi dargyfeirio'n eithaf sydyn dros y blynyddoedd o tua 2007 ymlaen. Fodd bynnag, mae archwilio'r data sylfaenol yn dangos bod y gwahaniaeth hwn wedi'i ysgogi gan newidiadau sydyn mewn GDP a fesurir yr awr ar gyfer ardaloedd rhai awdurdodau lleol, ac mae'n ymddangos ei bod yn bosibl bod hyn yn adlewyrchu effeithiau ystadegol yn hytrach na newid gwirioneddol.

Er bod ardaloedd awdurdodau lleol wedi cydgyfeirio, os o gwbl, ar brif ddangosyddion safonau byw ar gyfer y boblogaeth breswyl a nodir uchod, nid yw'r dangosyddion hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cryfder cymharol economïau lleol. Gall economïau lleol dyfu'n gyflymach neu'n arafach heb i hyn, o reidrwydd, olygu ei fod yn effeithio ar y preswlydd cyffredin, oherwydd gellir adlewyrchu'r twf mewn newidiadau o ran cymudo a/neu fudo.

Dangosir twf economaidd gwahaniaethol ardaloedd awdurdodau lleol Cymru yn y data yn Siart 12, sy'n dangos newidiadau yn nifer y swyddi ym mhob ardal.

Siart 12: Newid mewn cyfanswm swyddi, 2002-04 i 2017-19



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodyn: Dangosir ardaloedd awdurdodau lleol gydag elfen wledig fawr yn wyrdd


Mae Siart 12 yn dangos, er bod y twf mwyaf mewn swyddi wedi bod yng Nghaerdydd, nid oes patrwm daearyddol clir ar draws Cymru.

Rhagolygon ar gyfer safonau byw yng Nghymru

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi rhagweld twf araf iawn mewn incwm dros y blynyddoedd nesaf ar lefel y DU.

Mae Siart 13 isod yn cynnwys amcanestyniad *enghreifftiol* o incwm canolrifol aelwydydd Cymru tan tua chanol y degawd. Dylid ystyried hwn yn ffigwr bras gan fod yr amcanestyniad yn seiliedig ar ragolwg yr OBR ar gyfer y DU drwyddi draw, sy'n defnyddio incwm cymedrig yn hytrach nag incwm canolrifol.

Siart 13: Canolrif incwm aelwyd Cymru, gan gynnwys amcanestyniad (£ wythnos, prisiau 2019/20)



Ffynhonnell: SYG, Llywodraeth Cymru

Mae rhagolygon yr OBR yn awgrymu parhad o'r duedd hanesyddol ddigynsail o dwf isel mewn safonau byw a welwyd ers yr argyfwng ariannol.

Rhagwelir y bydd twf mewn safonau byw yn hynod o araf dros y ddwy flynedd nesaf, wrth i chwyddiant a chodiadau treth erydu gwir werth incwm gwario, ac wrth i doriadau lles leihau incwm rhai grwpiau, yn enwedig y rhai nad ydynt mewn gwaith.

Mae cymharu'r amcanestyniad â thueddiadau tymor hirach yn dangos bod incwm gwario cyfartalog gwirioneddol fesul aelwyd yn is o lawer na'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig pe bai'r duedd gyffredinol a fodolai cyn yr argyfwng ariannol wedi parhau. Yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i incwm wythnosol cyfartalog i aelwydydd sydd dros 30% yn uwch – neu oddeutu £130 yr wythnos – erbyn 2025/26.

Mae'r rhesymau dros y twf araf a ragwelir mewn incwm yn amrywiol. Yn y tymor byr i ganolig, mae'r OBR yn cyfeirio at rôl chwyddiant. Y flwyddyn nesaf, disgwylir i incwm aelwydydd, ar ôl ystyried chwyddiant, gynyddu 0.3% yn unig. Dros y 5 mlynedd nesaf, gyda thwf araf mewn cynhyrchiant yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu'n hanesyddol, disgwylir i'r twf gwirioneddol mewn incwm aelwydydd fod tua 1.0% ar gyfartaledd, sydd eto'n is o lawer na'r duedd hirdymor o fwy na 2.0%.

Mae'r amcanestyniad yn tybio cydberthynas agos rhwng incwm cymedrig a chanolrifol. Gallai hyn arwain at ddarlun rhy optimistaidd, gan fod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi nodi bod effaith chwyddiant a chynnydd mewn trethi yn 2022 yn debygol o arwain at effeithiau arbennig o ddifrifol ar rannau canol ac is y dosbarthiad incwm gyda gwir incwm canolrifol yn gostwng ac – mae'n debyg – tloedi yn cynyddu.

Yn y tymor hwy, fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r OBR yn disgwyl i'r pandemig olygu bod incwm aelwydydd tua dau y cant yn is bob blwyddyn nag y byddai fel arall, er bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch hyn. Hefyd, fel y nodwyd eisoes, mae'r OBR yn parhau i ragweld, ar sail y data masnachu diweddaraf, y bydd symudiad y DU at gysylltiadau masnachu newydd â'r UE hefyd yn ysgogi twf dros y tymor hir, gan arwain yn y pen draw at allbwn economaidd ac incwm y DU sydd tua phedwar y cant yn is nag y byddent fel arall.

Fodd bynnag, y ffactor pwysicaf y tu ôl i'r gyfradd twf araf a ragwelir dros y tymor hir yw parhad y gyfradd isel o dwf cynhyrchiant sylfaenol. Trafodir yr her hirdymor hon ymhellach isod.

Heriau a chyfleoedd tymor hwy

Cynhyrchiant

Cynhyrchiant – faint o allbwn a gynhyrchir am bob awr a weithir – yw prif sbardun safonau byw yn y tymor hir. Dim ond os ydynt yn deillio o well cynhyrchiant y gellir cynnal cynnydd mewn cyflogau gwirioneddol.


Yn eu tro, mae gwelliannau mewn cynhyrchiant yn cael eu sbarduno gan arloesedd – datblygu nwyddau a gwasanaethau newydd neu well a chynnydd effeithlonrwydd o ran cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mewn egwyddor, mae cynyddu cynhyrchiant yn caniatáu safonau byw uwch heb unrhyw gynnydd yn y defnydd o fewnbynnau neu adnoddau, er, yn ymarferol, bydd i ba raddau y defnyddir adnoddau yn dibynnu ar y polisïau sydd ar waith i gyfyngu ar ddihysbyddiad adnoddau.

Mae cynhyrchiant hefyd yn un o'r prif bethau sy'n ysgogi maint y sylfaen drethu ac, o ganlyniad, lefel yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Tuedd o ran twf cynhyrchiant

Cyn cyfnod o amgylch argyfwng ariannol 2008, cynyddodd cynhyrchiant ledled y DU, gan gynnwys Cymru, ychydig dros ddau y cant bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ers hynny, mae cyfradd y twf mewn cynhyrchiant wedi gostwng, gyda chyfartaledd o lai nag un y cant y flwyddyn – gweler Siart 14.

Siart 14: Cynhyrchiant llafur (allbwn fesul awr a weithiwyd, 2019=100)



Ffynhonnell: SYG a Llywodraeth Cymru

Noder: Mae'r data ar gyfer Cymru yn seiliedig ar allbwn fesul gweithiwr yn hytrach na fesul awr a weithir.

Mae'r rhesymau dros y gyfradd gymharol wael o dwf mewn cynhyrchiant mae'r DU (gan gynnwys Cymru) wedi'i phrofi ers tua 2008 yn cael eu deall yn anghyflawn. Mae'n nodwedd y mae llawer o wledydd datblygedig eraill wedi'i rhannu, er bod hynny i raddau llai yn gyffredinol.

Un esboniad posibl am y profiad cyffredin yw y gallai'r gyfradd arloesi fod wedi arafu. Posiblwydd arall, mwy gobeithiol, yw bod amrywiaeth o dechnolegau newydd yn y broses o gael eu mabwysiadu, ond gyda "chosb" sy'n adlewyrchu costau trosiannol a gwrthdaro, ac felly rhywbeth dros dro yw hyn.

Fel y nodwyd, mae perfformiad cynhyrchiant yn y DU wedi bod yn arbennig o wael. Un ffactor sydd wedi bod yn arbennig o ddifrifol yn y DU yw lefel isel o fuddsoddiad busnes. Gallai'r broblem hirdymor hon fod wedi gwaethygu dros y degawd diwethaf, yn gyntaf oherwydd presenoldeb sector ariannol mawr sy'n dioddef "hangofyr" yn sgil yr argyfwng ariannol, yna drwy Lywodraeth y DU yn gosod mesurau "caeth" a llym, ac yn olaf oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â refferendwm yr UE a throsglwyddo i berthynas fasnachu newydd gyda'r UE.

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod gwariant ar ymchwil a datblygu yn y DU wedi cynyddu, ac efallai fod hyn yn cynnig rhywfaint o obaith o ran rhagolygon.

Lefelau cynhyrchiant yng Nghymru

Mae lefelau cynhyrchiant yng Nghymru yn gymharol isel, hyd yn oed yng nghydestun y DU: ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, dim ond yng Ngogledd Iwerddon y mae cynhyrchiant fesul awr yn is.

Yn wahanol i'r perfformiad da o ran cyflogaeth, mae'r bwlch mewn cynhyrchiant rhwng Cymru a'r DU drwyddi draw wedi ehangu yn y blynyddoedd cyn tua 2008 ac nid yw wedi newid llawer ers hynny.

Mae llawer o'r ffactorau sy'n egluro perfformiad cynhyrchiant cymharol wan Cymru yn cael eu deall yn weddol dda, ac maent wedi cael eu trafod mewn adroddiadau blaenorol.

Yn gryno, *nid* yw lefelau cynhyrchiant isel yng Nghymru yn cael eu hegluro gan y cymysgedd o ddiwydiannau yng Nghymru. Yn benodol, mae cynhyrchiant mewn gweithgynhyrchu, sy'n gyfrifol am gyfran fwy o'r economi yng Nghymru na gweddill y DU, yn cymharu'n eithaf da.

Fodd bynnag, mae gan weithlu Cymru lefelau cymwysterau sydd yn is na'r rhai ar gyfer de Lloegr a'r Alban, er eu bod yn debyg i rannau o Loegr (neu ychydig yn uwch hyd yn oed). Mae ymchwil yn dangos mai sgiliau a chymwysterau yw'r ffactorau pwysicaf o bell ffordd o ran sbarduno cynhyrchiant.

Mae'n debyg bod Cymru hefyd wedi wynebu rhywfaint o gosb cynhyrchiant yn sgil ei phatrwm aneddiadau gwasgaredig, ac yn enwedig oherwydd nad oes cytref fawr a deinamig iawn. Gall cytrefi o'r fath gefnogi swyddi uchel eu cynhyrchiant a thalu yn y sector gwasanaethau y gellir eu masnachu.

Mae sector gwasanaethau y gellir eu masnachu llwyddiannus yn ei dro yn darparu sylfaen gref i gefnogi busnesau sy'n darparu gwasanaethau a ddefnyddir yn lleol.

Mae rhannau o Gymru hefyd yn cael eu llesteirio gan berifferoldeb cymharol a chysylltedd cyfyngedig yn sgil hynny.

Efallai fod problemau hefyd yn codi o ddiffyg cwmnïau mawr cynhenid; o sgiliau rheoli gwan; ac o gyfyngiadau ar fynediad at gyllid, er bod y dystiolaeth yn y meysydd hyn yn llai cyflawn.

Bydd gwella cynhyrchiant drwy barhau i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ffactor allweddol o ran gyrru safonau byw yn y dyfodol yng Nghymru ac o ran datblygu'r sylfaen drethu sydd ei hangen i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus da.

Mae'r potensial cynyddol ar gyfer gweithgarwch economaidd o bell, gan gynnwys gweithio o bell, yn cynnig cyfle newydd i Gymru gryfhau ei chynnig fel lleoliad ar gyfer cyflogaeth gynhyrchiol iawn sy'n talu'n dda.

Newid hinsawdd

Yn unol â'r hyn a gofnodwyd mewn cyfres o adroddiadau gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC), bydd newid hinsawdd yn arwain at ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol pellgyrhaeddol, gyda hyd a lled canlyniadau o'r fath yn dibynnu ar faint o fesurau lliniaru sy'n cael eu cyflawni ar sail fyd-eang.

Newid hinsawdd a thwf economaidd

Mae dadansoddiad yr IPCC o effeithiau posibl newid hinsawdd ac effaith y mesurau lliniaru seiliedig ar ystod o “Lwybrau Economaidd-gymdeithasol a Rennir”¹⁹ fel y’u gelwir. Bwriad pob un o’r rhain yw dangos dyfodol posibl, ond gyda goblygiadau amrywiol o ran maint y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol ac felly’r effaith ar dymereddau yn y dyfodol.

Mae pob un o’r llwybrau hyn yn tybio twf economaidd parhaus, er bod hynny ar lefelau amrywiol a bod twf yn arafu’n gyffredinol dros y ganrif wrth i fwy o wledydd agosáu at y ffin twf ac wrth i ffactorau eraill, gan gynnwys newid demograffig, beri rhwystr. Ochr yn ochr â thwf economaidd, mae’r llwybrau hefyd yn dangos cynnydd mewn dangosyddion llesiant eraill, fel disgwyliad oes, sydd fel arfer mewn cydberthynas yn eithaf agos â thwf economaidd.


Yn gyffredinol, mae llwybrau sydd â chyfraddau twf economaidd cyflymach (fel y’u mesurir gan GDP byd-eang) yn gysylltiedig â chynnydd uwch mewn tymheredd, ond nid yw hon yn berthynas unffurf. Mae SSP1 (“Mae’r byd yn symud yn raddol, ond yn ddyfal, tuag at lwybr mwy cynaliadwy, gan bwysleisio datblygiad mwy cynhwysol sy’n parchu ffiniau amgylcheddol tybiedig”) yn gysylltiedig mewn gwirionedd â thwf economaidd byd-eang ychydig yn gyflymach na SSP2 (“Mae’r byd yn dilyn llwybr lle nad yw tueddiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol yn newid yn sylweddol o batrymau hanesyddol”).

Mae’r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) wedi cynnal dadansoddiad i ystyried sut y gallai effeithiau newid hinsawdd gyfrannu at dwf economaidd, gan ei leihau o’r hyn y byddai wedi bod yn absenoldeb newid o’r fath²⁰. Dangosir canlyniadau dadansoddiad yr IMF ei hun, a’i chrynodeb o ganfyddiadau ymchwil arall a gyhoeddwyd ar yr un pwnc, yn Siart 15.

¹⁹ [The Shared Socioeconomic Pathways and their energy, land use, and greenhouse gas emissions implications: An overview - ScienceDirect](#)

²⁰ <https://www.imf.org/-/media/Files/Publications/WP/2019/wp19215-print.pdf.ashx>

Siart 15: Effaith cynnydd mewn tymheredd ar GDP fyd-eang



Ffynhonnell: IMF

Noder: Mae'r siart yn dangos effaith y cynnydd mewn tymheredd ar lefel ddisgwyliedig GDP yn 2100.

Mae dadansoddiad yr IMF ei hun ("IMF 2017" yn y siart) yn dangos y byddai cynnydd mewn tymheredd o ryw ddwy radd mewn 2100 (y terfyn uchaf a gynigir yng Nghytundeb Paris) yn lleihau lefel y GDP yn y flwyddyn honno tua 5% ac y byddai cynnydd mewn tymheredd o ryw bedair gradd a hanner yn gostwng lefel y GDP tua 10%.

O ran cyd-destun, cyn y pandemig, roedd twf byd-eang wedi bod tua thri y cant ar gyfartaledd bob blwyddyn dros y blynnyddoedd diwethaf.

Mae'r ardal dywyll yn y siart yn cynrychioli asesiad yr IMF o'r ystod lle mae'r berthynas rhwng y tymheredd a'r GDP yn y flwyddyn 2100 yn fwyaf tebygol o fod, gan ystyried ystod ac ansawdd yr astudiaethau sydd ar gael. Mae hyn ychydig yn fwy optimistaidd na'r hyn a awgrymir gan ddadansoddiad yr IMF ei hun, er y nodir bod lefel uchel iawn o ansicrwydd yma.

Mae'r siart yn dangos yr effeithiau ar lefel fyd-eang. Mae'r canlyniadau ar lefel gwledydd unigol yn amrywio'n fawr – maent yn waeth o lawer na'r hyn a ddangosir yn y siart ar gyfer llawer o wledydd sy'n dlawd ar hyn o bryd, ond yn llai gwael i wledydd sydd â lledredau uwch, fel y DU.

Mae'r IMF ac eraill wedi pwysleisio nad yw eu dadansoddiad yn ystyried "pwyntiau tyngedfennol" posibl, ac felly nid yw'n adlewyrchu'r posibilïadau o arwain at newid di-droi'n-ôl a thrychinebus. Felly, mae'r amcangyfrifon o'r effaith yn fwy tebygol o fod yn ddibynadwy ar gyfer cynnydd bach mewn tymheredd, tua phen isaf y ffigurau ar yr echelin lorweddol, lle mae pwyntiau tyngedfennol o'r fath yn ymddangos yn llai tebygol.

Gyda'r cafeiat hollbwysig hwn, mae'r data yn y siart yn dangos, er bod effeithiau'r cynnydd mewn tymheredd yn rhan isaf yr ystod ar lefel GDP yn fawr iawn mewn termau absoliwt, y byddai'r rhain yn arwain at ostyngiadau bach mewn cyfraddau twf economaidd blynyddol, llai na gwall talgrynnu mae'n debyg.

Costau lliniaru newid hinsawdd

Roedd dadansoddiad yn Adolygiad Stern²¹, a oedd yn garreg filltir bwysig, yn dangos bod manteision lliniaru newid hinsawdd ar raddfa fyd-eang yn llawer mwy na'r costau, hyd yn oed cyn ystyried pwyntiau tyngedfennol posibl a newid trychinebus.

Mae dadansoddiad gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn gyson â hyn; mae'n ddangos y dylai allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net yn y DU gostio llai nag un y cant o'r GDP bob blwyddyn, ac efallai'n nes at hanner un y cant²².

Dylid asesu'r costau hyn eto yng nghyd-destun y twf economaidd parhaus a ragdybiwyd gan yr IPPC a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Ar gyfer y DU, mae'r OBR wedi asesu bod cyfradd twf cynhyrchiant hirdymor y DU yn 1.5%. Ar y sail hon, disgwylir y bydd costau lliniaru newid hinsawdd yn cyfateb i dwf llai na blwyddyn yn braf.

Er hynny, mae'r costau buddsoddi cysylltiedig yn fawr mewn termau absoliwt, a byddant hyd yn oed yn fwy yng Nghymru fel canran o GDP nag ar draws y DU drwyddi draw, o ganlyniad i'r cymysgedd penodol o ddiwydiannau sy'n nodweddu'r economi yng Nghymru.

Dylid ystyried bod y ffigurau'n dangos yr ansicrwydd ynghylch technolegau a dewisiadau polisi yn y dyfodol, ond goblygiad "llwybr cytbwys" y Pwyllgor Newid Hinsawdd at sero net i Gymru yw y gallai'r buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen fod yn ymgodiad o dros ddeg y cant uwchlaw buddsoddiad "busnes fel arfer" y flwyddyn arferol dros y cyfnod hyd at 2050.

Ar sail yr un ffigurau enghreifftiol, tri sector fyddai'n gyfrifol am dros dri chwarter y buddsoddiad ychwanegol angenrheidiol: cyflenwi trydan, gwresogi adeiladau (gwres ac effeithlonrwydd ynni) a thrafnidiaeth arwyneb. Yn yr olaf o'r tri maes, mae'r rhan fwyaf o'r gost i'w phriodoli i ddatgarboneiddio cerbydau trafndiaeth ar y ffyrdd.

Mewn sawl ardal, bydd costau buddsoddi uwch yn cael eu gwrthbwysu'n rhannol neu'n llawn gan gostau rhedeg is dros amser.

Yn ei gyngor i Lywodraeth Cymru²³, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi nodi'r canlynol mewn perthynas â thalu costau sero net:

- Bydd cyfran fawr o'r gost yng Nghymru yn cael ei "chymdeithasoli" ar draws y DU gyfan (a thu hwnt) gan y bydd yn cael ei thalu drwy brisiau uwch sy'n cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr.

²¹ [The Economics of Climate Change: The Stern Review - Grantham Research Institute on climate change and the environment \(Ise.ac.uk\)](https://www.ise.ac.uk/publications/2006/10/14/The-Economics-of-Climate-Change-The-Stern-Review-Grantham-Research-Institute-on-climate-change-and-the-environment)

²² Dyma effaith net costau buddsoddi uwch wedi'u gwrthbwysu gan gostau gweithredu sy'n is yn eu crynswth.

²³ [Advice-Report-The-path-to-a-Net-Zero-Wales.pdf \(theccc.org.uk\)](https://www.theccc.org.uk/publication/advice-report-the-path-to-a-net-zero-wales/)

- Mae'r rhan fwyaf o'r gost yn debygol o gael ei thalu gan y sector preifat yn ymateb i gymhellion a rheoliadau – ac yn y pen draw gan ddefnyddwyr – yn hytrach na llywodraeth (er y bydd i ba raddau y mae hyn yn wir yn dibynnu ar ddewisiadau polisi, y mae llawer ohonynt eto i'w gwneud, er enghraifft, ynghylch sut i dalu am ddatgarboneiddio systemau gwresogi adeiladau).
- Mae llawer o'r newidiadau polisi sydd eu hangen mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, ac i'r graddau y mae'r llywodraeth yn cadw costau, y DU fyddai'n gyfrifol am y rhain, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Bydd y newid yn y strwythur diwydiannol sy'n deillio o'r polisiâu a roddir ar waith i hyrwyddo datgarboneiddio yn arwain at symud pobl rhwng sectorau a galwedigaethau "hen" a "newydd". Bydd y broses hon yn gofyn am gymorth gan y llywodraeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys i helpu i ddysgu sgiliau newydd. Ond hyd yn oed yn absenoldeb datgarboneiddio, mae newid diwydiannol yn nodwedd barhaol, gydag o leiaf 2,000 o swyddi'n cael eu colli, a rhai newydd yn cael eu creu, bob wythnos yng Nghymru. Mae natur y gofynion o ran sgiliau hefyd yn newid yn barhaus o ganlyniad i amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys awtomeiddio. Felly, yng nghyswllt hyn, dim ond un agwedd ar ffenomen lawer ehangach yw datgarboneiddio sy'n cyfiawnhau ymwneud gweithredol gan y llywodraeth i amddiffyn pobl agored i niwed drwy drawsnewidiadau economaidd.

Fel y sonnir uchod, un nodwedd y nodwyd ei bod yn cyfrannu at wendid cynhyrchiant hirdymor y DU (ac felly Cymru hefyd) yw lefel isel o fuddsoddiad busnes i gefnogi mwy o effeithlonrwydd busnes. Felly, mae'r lefelau uwch o fuddsoddiad sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â newid hinsawdd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r gwendid hwn.

Demograffeg Cymru

Amcanestyniadau poblogaeth

Mae twf y boblogaeth wedi bod yn arafach yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac mae gan Gymru gyfran uwch o'i phoblogaeth sy'n 65 oed neu'n hŷn nag unrhyw wlad arall yn y DU.

Mae cyfran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r llall ers canol 2008, pan amcangyfrifwyd bod pobl rhwng 16 a 64 oed yn cyfrif am oddeutu 64% o'r boblogaeth.

Nid rhagolygon yw'r rhagamcanion poblogaeth swyddogol. Maent yn destun lefelau uchel o ansicrwydd, ac adlewyrchir hyn wrth baratoi prosiectau amrywiol ac mewn gwahaniaethau mawr yn aml wrth i'r amcanestyniadau gael eu diweddarau dros amser. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn seiliedig ar 2018 a byddant nawr yn destun ansicrwydd penodol o ganlyniad i effeithiau Brexit (a'r newidiadau cysylltiedig i reolau mudo) a'r pandemig ar fudo rhyngwladol.

O dan y prif amcanestyniad yn 2018, rhagwelwyd y byddai cyfran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yn parhau i ostwng yng Nghymru ac yn y DU, i oddeutu 58% o boblogaeth Cymru erbyn canol 2043 – sy'n is yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw, ac mae hynny'n wir ers o leiaf 1981.

Roedd poblogaeth gyffredinol Cymru wedi parhau i dyfu yn ystod y cyfnod cyn y newid i'r rheolau mudo a'r pandemig. Roedd y twf hwn oherwydd mudo net rhyngwladol a thrawsffiniol cadarnhaol. Y twf canrannol yn y boblogaeth rhwng canol 2019 a chanol 2020 yng Nghymru oedd yr uchaf o blith gwledydd y DU.

Serch hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y marwolaethau yng Nghymru wedi bod yn llawer uwch na nifer y genedigaethau a gallai effaith newidiadau diweddar olygu na all patrymau mudo lenwi'r newid naturiol negatif hwn, gyda phoblogaeth Cymru gyfan yn lleihau, am gyfnod hir o bosibl.

Risgiau yn sgil newid demograffig


Mae newidiadau mewn poblogaeth yn peri risgiau economaidd a chyllidol go iawn i Gymru. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod poblogaeth sy'n heneiddio yn gysylltiedig â thwf arafach mewn cynhyrchiant (ac felly'r sylfaen drethu).

Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn yn ei phoblogaeth na'r DU drwyddi draw. Fodd bynnag, mae'r newidiadau sy'n cael eu rhagamcanu yn y gyfran wrth i'n boblogaeth heneiddio i'r dyfodol yn debyg, felly nid yw heneiddio yn peri risg uniongyrchol.

Yn groes i hynny, roedd y prif amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 yn dangos bod gwahaniaeth mawr rhwng Cymru a'r DU o ran maint y boblogaeth y byddai disgwyl iddi fod yn ymwneud â gweithgarwch economaidd neu'n paratoi i ymwneud â gweithgarwch economaidd²⁴. Gweler Siart 16.

²⁴ Mae amcanestyniadau wrth gwrs yn ansicr, yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i reolau mewnfudo'r DU.

Siart 16: Prif Amcanestyniadau Poblogaeth, 2018=100.



Ffynhonnell: SYG, Llywodraeth Cymru

Noder: Nodwyd y cohort 16-64 yn hytrach nag "oed gweithio" gan fod yr ail yn cael ei ddylanwadu gan newidiadau dros amser yn yr oed ymdeol.

Mae Siart 16 yn dangos yng Nghymru bod disgwyl i'r boblogaeth 16-64 oed fod yn weddol sefydlog dros y cyfnod hyd at 2028 tra mae'n yn codi ar draws gweddill y DU. Mae maint y cohort wedyn yn disgyn yng Nghymru.


Mae goblygiadau cyllidol newid demograffig yn cael eu hystyried ymhellach isod.

Rhagolygon cyllidol

Rhagolygon cyllidol tymor byr y DU

Mae Siart 17 yn dangos rhagolwg yr OBR ar gyfer Hydref 2021 ynghylch lefel fenthycia net y sector cyhoeddus.

Siart 17: Rhagolygon ar gyfer Lefel Fenthycha Net y Sector Cyhoeddus



Ffynhonnell, SYG, OBR

Roedd benthycha wedi cyrraedd record ar gyfer y swm mwyaf mewn cyfnod o heddych, sef £320 biliwn neu 15% o'r GDP yn 2020-21, ond roedd hynny £35 biliwn yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd gan yr OBR ym mis Mawrth. Mae'r perfformiad cyllidol cryfach hwn wedi parhau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda'r OBR yn disgwyl i'r benthycha fod yn £183 biliwn yn 2021-22, llai na 60% o'r lefel yn 2020-21 a £51 biliwn yn is na'r rhagolwg ym mis Mawrth. Mae'r rhan fwyaf o'r adolygiad am i lawr yn adlewyrchu derbyniadau uwch gan fod yr economi wedi adfer yn gryfach na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.

Mae'r OBR yn rhagweld gostyngiad sylweddol pellach mewn benthycha yn 2022-23, gan fwy na haneru i £83 biliwn, wrth i gymorth y pandemig ddod i ben. Mae wedyn yn dirywio'n fwy graddol i gyrraedd £44.0 biliwn (1.5 y cant o'r GDP) yn 2026-27. Mae hyn yn golygu bod benthycha ar derfyn y rhagolwg 1.0 y cant o'r GDP yn is nag yr oedd cyn y pandemig yn 2019-20, ac ar lefel a fyddai ar ei isaf ers 25 mlynedd.

O'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth, cyn unrhyw fesurau cyllideb, mae benthycha yn y blynyddoedd i ddod yn gostwng tua £35bn y flwyddyn. Ar ben hynny, cyhoeddodd y Canghellor godiadau treth o oddeutu £15bn y flwyddyn, yn bennaf yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i ddarparu gwelliant ariannol cyffredinol o £50bn y flwyddyn. Mae tua £30bn o hynny wedi mynd tuag at wariant adrannol uwch nag a gynlluniwyd ar gyfer cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth. Mae'r gweddill yn lleihau benthycha.

Rhagwelir y bydd dyled net y sector cyhoeddus yn cyrraedd uchafbwynt ar 98.2% o'r GDP yn 2021-22. Mae'n dal yn weddol sefydlog yn 2022-23 a 2023-24, cyn gostwng fesul symiau mwy ar ôl hynny, i gyrraedd 88.0 y cant o'r GDP yn 2026-27 – sy'n dal yn uwch na'r lefel cyn y pandemig.

Ochr yn ochr â'i chyllideb, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddiweddariad i'r Siarter Cyfrifoldeb Cyllidebol gyda set newydd o dargedau cyllidol. Mae'r rhain yn cynnwys mandad cyllidol diwygiedig a thri tharged atodol. Mae rhagolwg yr OBR yn dangos bod pob un o'r pedwar targed newydd yn fwy tebygol o gael eu cyrraedd na'u methu, ond heb fod yn rhy bell ohoni.

Y mandad cyllidol newydd yw cael dyled net y sector cyhoeddus (ac eithrio Banc Lloegr) fel cyfran o GDP yn gostwng erbyn trydedd flwyddyn y cyfnod rhagolwg treigl. Y tri tharged atodol yw:

- Cydbwysu'r gyllideb gyfredol erbyn trydedd flwyddyn y cyfnod rhagolwg treigl.
- Sicrhau nad yw buddsoddiad net y sector cyhoeddus yn fwy na 3 y cant o'r GDP ar gyfartaledd dros gyfnod treigl y rhagolwg o bum mlynedd.
- Sicrhau bod is-set o wariant ar les wedi'i gynnwys o fewn cap a lwfans a bennir ymlaen llaw gan y Trysorlys (y 'cap lles').

Mae'r OBR yn nodi bod yr hyblygrwydd y mae'r Canghellor wedi'i roi iddo'i hun er mwyn cyrraedd ei dargedau cyllidol newydd yn 2024-25 yn llai na'r hyn a roddodd George Osborne iddo'i hun yn 2010 neu Philip Hammond yn 2016 i fodloni eu mandadau cyllidol, ond yn fwy nag a roddwyd ar gyfer ail fandad ariannol George Osborne yn 2015. Ni fodlonwyd yr un o'r mandadau blaenorol hyn.


Cymru – rhagolygon cyllidol dros gyfnod y gyllideb

Roedd adolygiad o wariant a chyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref yn rhoi manylion cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 i 2024-25. O ganlyniad i'r gwariant ychwanegol yn ôl disgresiwn a nodwyd yn yr adran uchod, mae'r cefndir ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru yn llai llwm na'r disgwyl. Mae'r gyllideb adnoddau craidd yn cynyddu £1.8 biliwn yn 2022-23 ac yna tua £0.5 biliwn a £0.4 biliwn yn 2023-24 a 2024-25.

Mae cynnydd sylweddol yn 2022-23 o'i gymharu â chyllid craidd yn 2021-22. Fodd bynnag, mae'r darlun yn edrych yn wahanol iawn os yw cyllid COVID wedi'i gynnwys yn y flwyddyn gyfredol. O'i gymharu â chyfanswm y cyllid yn 2021-22, mae'r gyllideb adnoddau'n gostwng £0.7 biliwn.

O'i gymharu â chyllid craidd yn 2021-22, mae'r gyllideb adnoddau'n tyfu 3% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real dros y 3 blynedd mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn eu cwmpasu. Fel y dangosir yn Siart 18, mae'r twf hwnnw i gyd bron yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf.

Siart 18: Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real (£m, prisiau 2020-21²⁵)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae Siart 19 yn dangos yr un ffigurau ar gyfer y gyllideb adnoddau â Siart 18, ond y pen. A hithau wedi gostwng tua 9% mewn termau real yn ystod y degawd diwethaf, mae'r gyllideb yn 2022-23 ychydig yn uwch y pen nag yn 2010-11. Fodd bynnag, prin ei bod yn tyfu yn 2023-24 a 2024-25.

²⁵ Nid yw'n cynnwys cyllid cymorth i ffermydd gan nad yw wedi'i gynnwys yn y blynyddoedd cyn 2020-21.

Siart 19: Amcanestyniad Tymor Canolig ar gyfer Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real y pen (£, prisiau 2020-21)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Rhagolygon cyllidol tymor hirach y DU

Mae rhagolygon cyllidol tymor hirach yn adlewyrchu'n rhannol ddisgwyliadau o ran tueddiadau economaidd yn y dyfodol, sy'n cael eu trafod uchod.

Fel yr awgryma'r teitl, mae *Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol* yr OBR yn adolygu pwysau cyllidol hirdymor y DU. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ym mis Gorffennaf 2020, gyda'r casgliadau allweddol canlynol²⁶:

- Nid yw sefyllfa gyllidol y DU yn gynaliadwy dros yr hirdymor heb godi trethi'n sylweddol (neu leihau rhwymedigaethau gwario) yn bennaf o ganlyniad i'r pwysau ar gost darparu gwasanaethau cyhoeddus.
- Y prif bethau sy'n gwrthio'r cynnydd yng nghost gwasanaethau cyhoeddus yw poblogaeth sy'n heneiddio (sy'n codi costau pensiwn yn bennaf ond gofal cymdeithasol hefyd) a chynnydd cymharol mewn costau darparu iechyd (sy'n bwysicach o lawer ar gyfer costau gofal iechyd na phoblogaeth sy'n heneiddio).

Mae cyllid cyhoeddus y DU wedi cael sioc fawr iawn o ganlyniad i'r pandemig, ac erbyn hyn mae disgwyl i ddyled net y sector cyhoeddus fod bron yn 100% o'r GDP ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

²⁶ <https://obr.uk/fsr/fiscal-sustainability-report-july-2020/>

Dyma un o'r tair ffynhonnell o risg gyllidol fawr iawn y mae'r OBR yn canolbwyntio arni yn ei Adroddiad Risgiau Cyllidol diweddaraf²⁷. Fel y mae'n nodi, mae dyled uwch y llywodraeth ar ôl y pandemig, ynghyd ag aeddfedrwydd dyledion effeithiol byrrach fel un o sgil-gynhyrchion esmwytho meintiol, yn golygu bod cyllid cyhoeddus y DU yn fwy agored i gynnydd mewn cyfraddau llog ac yn gyflymach. Mae hefyd yn nodi nad yw chwyddiant bellach yn ffordd effeithiol iawn o leihau'r gymhareb dyled-i-GDP, sy'n adlewyrchu byrhad aeddfedrwydd effeithiol dyled gyhoeddus a'r gyfran gymharol uchel o ddyled sy'n gysylltiedig â mynegai yn y DU.

Y ddau faes arall y canolbwyntir arnynt yn yr adroddiad hwnnw yw'r pandemig a newid hinsawdd. Fel y trafodwyd uchod, mae asesiad diweddaraf yr OBR o effaith creithio hirdymor y pandemig yn 2% o'r GDP, wedi'i adolygu i lawr o 3% ym mis Mawrth. Mae'r cynnydd tymor byr i ganolig mewn gwariant yn ôl disgrisiwn a ddisgrifir uchod hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r pwysau o ran gwariant y mae'r OBR wedi tynnu sylw atynt fel risgiau.

O ran newid hinsawdd, mae'r OBR yn asesu bod costau cyhoeddus cyrraedd sero net erbyn 2050 yn "sylweddol ond nid yn eithriadol". Fodd bynnag, o dan un senario a ystyrir gan yr OBR, gallai dyled net y sector cyhoeddus gynyddu 20% o'r GDP erbyn 2050 (ond effaith gymharol fach a welir dros y degawd nesaf).

Dylid nodi nad yw datgarboneiddio bob amser yn golygu gwariant ychwanegol. Mae modd integreiddio rhai o'r costau i raglenni a chyllidebau cyfalaf sydd eisoes ar waith, er efallai y bydd hefyd angen ailflaenoriaethu gwariant sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig stopio neu leihau'r gwariant mewn meysydd sy'n cynyddu allyriadau carbon dros y tymor hir.

O dan asesiad yr OBR, mae tair elfen amlwg i'r effaith bosibl ar gyllid cyhoeddus yn y tymor hwy: colli tollau tanwydd ffyrdd; canlyniadau dewisiadau posibl y llywodraeth yn y dyfodol i ariannu cyfran fawr o gost datgarboneiddio gwresogi adeiladau; o bosibl, cost y llywodraeth yn ariannu proses tynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer os bydd angen gwneud hynny i wrthbwysu allyriadau parhaus mewn rhai sectorau anodd eu datgarboneiddio.

I wneud ei hasesiad, mae'n rhaid i'r OBR wneud tybiaethau amrywiol ynghylch dewisiadau polisi yn y dyfodol yn y meysydd hyn, gyda'r cynnydd mewn dyled sector cyhoeddus yn deillio'n benodol o ddewisiadau i beidio â disodli tollau tanwydd a gollir â ffynonellau refeniw eraill ac i'r llywodraeth dalu cyfran fawr o gostau datgarboneiddio systemau gwresogi adeiladau.

Wrth gwrs, nid yw'r dewisiadau ar gyfer meysydd hyn yn y dyfodol yn hysbys ar hyn o bryd a gellid dadlau ei bod yn ymddangos yn annhebygol mai'r dewis cyntaf o'r rhain fydd yr un sy'n cael ei wneud yn ymarferol.

I'r graddau y mae datgarboneiddio yn arwain at gostau ynni uwch na fel arall (sydd i weld yn debygol), mae'n ymddangos yn anochel y bydd canlyniadau dosbarthiadol niweidiol, gan fod costau ynni fel arfer yn cyfrif am gyfran uwch o incwm pobl sydd â

²⁷ [Fiscal risks report – July 2021 - Office for Budget Responsibility \(obr.uk\)](#)

lefelau incwm is²⁸. Mewn egwyddor, gallai effeithiau o'r fath gael eu gwrthbwyso naill ai drwy'r system dreth a budd-daliadau neu drwy ailgynllunio strwythurau tariffau, gyda goblygiadau gwahanol i gyllid cyhoeddus.

Bydd lliniaru newid hinsawdd yn effeithiol yn lleihau, ond nid yn dileu wrth gwrs, yr angen i ariannu addasiadau, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â chanlyniadau mwy o law a lefel y môr yn codi²⁹. Mae gan lawer o gynlluniau atal llifogydd achos cryf eisoes o ran gwerth am arian, a chaiff yr achos dros brosiectau o'r fath ei gryfhau ymhellach³⁰.

Ym mhob un o'r meysydd hyn, bydd y dewisiadau polisi a wneir gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar lefelau gwariant mewn meysydd datganoledig, ac felly ar y symiau canlyniadol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagolygon cyllidol tymor hirach Cymru - 2025-26 ymlaen

Mae'r amcanestyniadau tymor hirach a ddangosir yn Siart 20 yn defnyddio'r cynlluniau cyllidebol a nodir uchod fel man cychwyn. Ar gyfer 2025-26 a 2026-27 maent yn defnyddio'r twf tybiedig yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) cyffredinol ar gyfer adnoddau'r DU o ragolwg yr OBR ar gyfer yr Hydref, i gynyddu DEL Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhagolygon ar gyfer treth ddatganoledig o Ragolwg Trethi Cymru gan yr OBR, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2027-28 i 2032-33.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant "seiliedig ar alw" yr OBR

- Seiliedig ar amcanestyniadau canolog yr OBR ar gyfer gwariant di-log, di-fudd perthnasol o Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol 2020. Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i gyllid grant bloc yn cynyddu ychydig dros 1% y flwyddyn yn gyflymach na'r GDP, gan adlewyrchu'r galw cynyddol gan ffactorau, fel poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yng nghostau gwirioneddol darparu gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r OBR yn datgan na fyddai gwariant yn y senario hwn yn gynaliadwy o dan y polisiau trethiant presennol.

Senario dau: Twf yn unol â chynnyrch domestig gros

²⁸ Mae Adolygiad diweddar Llywodraeth y DU o Sero Net hefyd yn dangos ei bod yn debygol y bydd amrywiad mawr mewn grwpiau incwm o ran bod yn agored i gostau ynni: [Policy paper overview: Net Zero Review Final Report - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

²⁹ Mae'r IPCC yn barnu bod tywydd eithafol, yn enwedig dyodiad a thymereddau uchel, wedi dod yn fwy cyffredin ac mae'n rhagweld cynnydd pellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae dangosydd Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop o golledion economaidd a briodolir i ddigwyddiadau hinsawdd a thywydd ledled Ewrop (gan gynnwys y DU) yn gyfnewidiol iawn ac, er ei fod yn cynyddu, nid yw'n dangos tuedd gref dros y cyfnod ers 1980. Dylid nodi bod y colledion yn cael eu mynegi mewn termau real ond heb eu "normaleiddio" i gynnwys mwy o amlygiad oherwydd cynnydd mewn gwerthoedd poblogaeth ac eiddo; canlyniad normaleiddio o'r fath fyddai lleihau'r mesur o golledion dros amser. [Economic losses from climate-related extremes in Europe \(europa.eu\)](#)


³⁰ Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru, ar gyfartaledd, wedi gwario dros £70 miliwn y flwyddyn ar amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir – ffigur sy'n awgrymu bod modd rheoli costau yng Nghymru, er eu bod yn fawr.

- Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i arian grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu ar yr un cyflymder ag economi'r DU. Gellid ystyried bod y lefel hon o wariant yn fwy fforddiadwy na'r hyn a awgrymir yn y senario cyntaf gan Lywodraeth y DU sy'n amharod i gynyddu'r gyfran o incwm cenedlaethol a gymerir drwy drethi.

Senario tri: Twf un pwynt canran yn llai na chynnyrch domestig gros

- Mae gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn tyfu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU, ac efallai'n adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau neu log o ddyledion – yn tyfu'n gyflymach.

Siart 20: Amcanestyniadau Hirdymor ar gyfer Gwariant Llywodraeth Cymru o Ddydd i Ddydd (cyllideb adnoddau heb gynnwys COVID-19) mewn termau real, o dan dri senario (£m, prisiau 2020-21)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r ddwy flynedd y tu hwnt i gyfnod presennol y gyllideb yn gweld twf ychydig yn gyflymach na 2023-24 a 2024-25. Mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru wedyn yn tyfu'n gynt eto dros weddill y rhagamcan, ond nid mor gyflym ag yn ystod y 2000au. Gan ystyried casgliad yr OBR nad yw'r lefel hon o dwf mewn gwariant yn gynaliadwy heb gynyddu treth, mae'n bosibl y byddai'r senario hon yn cael ei hystyried yn anhygoel o optimistig.


Byddai'r senario canolig o dwf yn unol â'r GDP yn parhau â'r duedd yn ffigurau cyffredinol y DU gan DEL ar gyfer 2025-26 a 2026-27.

Byddai'r senario is yn golygu bod cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn weddol wastad mewn termau real, yn debyg iawn i 2023-24 a 2024-25.

Refeniw trethi Cymru

O ganlyniad i ddatganoli trethi, tua 80% o gyllid Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r grant bloc erbyn hyn (Gweler Siart 21). Mae cyllid o refeniw trethi yn ffynhonnell risg yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ac mae'n cysylltu cyllid â pherfformiad trethi datganoledig Cymru o'u cymharu â'r rhai cyfatebol yn y DU.

Siart 21: Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Roedd Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR, sy'n cyd-fynd â Chyllideb yr Hydref ac Adolygiad o Wariant y DU, yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethu'r DU sy'n cael eu defnyddio i gael yr addasiadau i'r grant bloc. Mae rhagolygon refeniw wedi'u diweddarau ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn a rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn Rhagolygon yr OBR ar gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos refeniw uwch ar draws yr holl drethi datganoledig o'i gymharu â rhagolwg mis Mawrth yr OBR (Siart 22). Mae hyn yn cyd-fynd â'r rhagolygon gwell ar gyfer yr economi yn gyffredinol o'i gymharu â disgwyliadau yn gynharach yn y flwyddyn. Yn gyffredinol, mae'r refeniw datganoledig wedi cynyddu dros £300m bob blwyddyn rhwng 2022-23.

Siart 22: Rhagolygon trethi datganoledig (£ miliwn)




Ffynhonnell: OBR

Mae'r rhagolygon ar gyfer trethi cyfatebol yn y DU hefyd yn uwch o'i gymharu â mis Mawrth. Mae'r rhain yn effeithio ar yr addasiadau i'r grant bloc sy'n berthnasol i gyllid Llywodraeth Cymru ac yn golygu bod effaith net y rhagolygon newydd ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn llai na'r cynnydd mewn refeniw datganoledig a ddangosir uchod.

Dangosir y sefyllfa net rhwng y trethi datganoledig a'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc yn Siart 23. Dros y blynyddoedd a gwmpesir gan gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, mae'n dangos yr effaith net yn cynyddu o £110m yn 2022-23 i £180m yn 2024-25. Mae'r effaith yn cynyddu ymhellach yn ystod dwy flynedd olaf y rhagolwg. Mae'r bwlch yn cael ei ysgogi'n rhannol gan ddewisiadau polisi, er enghraifft mae gan dreth trafodiadau tir gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol na threth dir y dreth stamp Llywodraeth y DU. Yn ogystal, mae rhewi'r lwfans personol treth incwm yn cael mwy o effaith gyfrannol ar refeniw yng Nghymru nag mewn mannau eraill.

At ddibenion y gyllideb, mae addasiad grant bloc CTIC a rhagolwg refeniw CTIC ar gyfer 2022-23 nawr yn sefydlog. Bydd addasiad cysoni ar ôl cyhoeddi'r data alldro. Cyhoeddwyd y set gyntaf o wybodaeth alldro CTIC ar gyfer 2019-20 yr haf hwn ac roedd yn agos at y rhagolygon diweddar. Bydd gwybodaeth alldro ar gyfer 2020-21 yn cael ei chyhoeddi'r haf nesaf a bydd yn arwain at addasiad cysoni yn unol â chyllideb 2023-24. Nid yw'r siartiau yma a rhifydddeg y gyllideb ddrafft yn ystyried yr addasiadau cysoni a ragwelir ar sail rhagolygon cyfredol.

Siart 23: Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc (£ miliwn)



Ffynhonnell: cyfrifiadau Llywodraeth Cymru a'r OBR


Balans cyllidol

Mae Siart 24 yn dangos y balans cyllidol ar gyfer Cymru a gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae balans negatif yn dynodi bod y gwariant yn fwy na'r refeniw.

Mae gwariant cyhoeddus y pen yn uwch yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o wledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr. Yn gyffredinol, mae lefel y gwariant mewn gwahanol ardaloedd yn adlewyrchu'r strwythurau oedran cymharol a dangosyddion angen eraill. Mae gwariant y pen yn uwch yn yr Alban ac yn Llundain am resymau eraill.

Mae refeniw treth y pen yng Nghymru yn is nag y mae yn unrhyw wlad arall yn y DU neu ranbarth yn Lloegr, ond dim ond ychydig yn is na'r lefel yn yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canol Lloegr. Mae gwendid sylfaenol y sylfaen drethu yng Nghymru eto'n adlewyrchu ffactorau demograffig, ond hefyd y nifer cymharol fach o bobl sy'n ennill incwm uchel yng Nghymru, sydd ill dau'n cael eu hadlewyrchu ym mherfformiad cymharol Cymru o ran GDP.

Siart 24: Balans cyllidol y pen (£), 2019-20



Ffynhonnell: SYG

Nodiadau: Refeniw olew a nwy Môr y Gogledd a ddyrennir ar sail daearyddiaeth

Mae'r bwlch mawr rhwng refeniw a gwariant yng Nghymru yn dangos bod llawer iawn yn cael ei drosglwyddo i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU, a'r trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwlch a ddangosir rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru fel y trafodir uchod. Mae'r ddibyniaeth hon ar drosglwyddiadau cyllidol yn amlwg yn risg allweddol i safonau byw Cymru.

Fel y nodwyd uchod, mae newid demograffig yn ychwanegu at y risgiau economaidd a chyllidol tymor hirach sy'n wynebu Cymru.

O dan y trefniadau cyllidol presennol, mae gan Gymru amddiffyniad sylweddol, ond heb fod yn gyflawn, rhag symudiadau yn y boblogaeth sy'n niweidiol yn ôl pob golwg – yn wir, mewn rhai amgylchiadau, gallai symudiadau o'r fath gael effeithiau manteisiol yn y tymor byrrach (gan fod y grant bloc yn cynnwys sylfaen fawr a fyddai'n cael ei rhoi ar waith a'i "rhannu" ar draws poblogaeth a fyddai'n llai nag y byddai fel arall).

Fodd bynnag, o dan drefniadau cyllidol a allai fod yn wahanol yn y dyfodol, gallai gwendid yn y sylfaen drethu sy'n deillio o newid demograffig fod yn fwy o faich o lawer.

Er bod llawer o'r ffactorau sy'n pennu lefelau poblogaeth yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ffactorau sy'n anodd eu dylanwadu, mae'r potensial cynyddol ar gyfer gweithgarwch economaidd o bell, gan gynnwys gweithio o bell, ynghyd â'r lefel uchel o amwynder yng Nghymru, yn rhoi cyfle i bolisïau fynd i'r afael â dirywiad cymharol y

boblogaeth yng Nghymru. Gallai mesurau sy'n gwneud Cymru'n fwy deniadol fel lleoliad helpu i gadw a denu pobl, gan gynnwys pobl sy'n dychwelyd i'r ardal.